# Datganiad o Bolisi Trwyddedu
# Cyngor Sir Penfro

**Ionawr 2016**

# Deddf Trwyddedu 2003


**Mae rhagor o wybodaeth i'w chael o'r:**
**Tîm Trwyddedu**
**Isadran Diogelu'r Cyhoedd**
**Neuadd y Sir**
**Hwlffordd**
**Sir Benfro**
**SA61 1TP**

**Ffôn: 01437 764551**
**E-bost: licensing@pembrokeshire.gov.uk**
**Gwefan: www.pembrokeshire.gov.uk**


**Mae'r polisi hwn i'w gael hefyd yn y Saesneg neu brint bras trwy wneud cais i'r Tîm Trwyddedu.**

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 3
2. Proffil o’r Sir ........ 5
3. Y Pwyllgor Trwyddedu ........ 6
4. Egwyddorion Sylfaenol ........ 7
5. Parthau ac oriau trwyddedu ........ 8
6. Galw masnachol ........ 10
7. Niwed Alcohol ........ 10
8. Cyffuriau ........ 12
9. Amcanion Trwyddedu ........ 12
10. Atal trosedd ac anhrefn ........ 13
11. Atal niwsans cyhoeddus ........ 13
12. Diogelwch y cyhoedd ........ 14
13. Gwarchod plant rhag niwed ........ 15
14. Hawliau gwneud sylwadau ........ 15
15. Awdurdodau Cyfrifol ........ 16
16. Pobl eraill ........ 17
17. Cyfannu strategaethau ........ 17
18. Y Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Wasanaethau ........ 20
19. Trwydded alcohol bersonol ........ 21
20. Trwydded eiddo ........ 21
21. Tystysgrif eiddo clwb ........ 22
22. Rhybuddion digwyddiadau dros dro ........ 23
23. Gwerthu a chyflenwi alcohol ........ 24
24. Adloniant rheoledig ........ 24
25. Cerddoriaeth fyw, dawnsio a theatr ........ 26
26. Gweinyddu ........ 26

27. Trefnau ceisio ........ 26

28. Amserlen weithredu ........ 27

29. Amodau ........ 28

30. Ceisiadau pan fo sylwadau'n cael eu derbyn ........ 29

31. Arfer a dirprwyo swyddogaethau ........ 33

32. Adolygu trwyddedau ........ 34

33. Polisi effaith gronnol ........ 35

34. Gorchmynion cyfyngu ben bore ........ 38

35. Gwrandawiadau ........ 40

36. Apeliadau ........ 40

37. Gweithredu penderfyniad y Llys Ynadon ........ 41

38. Gorfodi ........ 41

39. Ffïoedd yn Gyffredinol ........ 42

40. Ffïoedd Blynyddol am Drwyddedau Eiddo a Thystysgrifau Eiddo Clwb ........ 42

41. Atal trwydded am beidio â thalu'r ffi flynyddol ........ 42

42. Ardollau hwyrnos ........ 43

43. Rhagor o wybodaeth ........ 44

**Atodiad A - Cod Ymarfer Da ar gyfer Eiddo Trwyddedig** ........ 47

**Atodiad B - Ardal Ddaearyddol y Polisi Effaith Gronnol yn Ninbych-y-pysgod a Hwlffordd** ........ 665

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Deddf Trwyddedu 2003 (y Ddeddf) yn gofyn bod y Cyngor, wrth gyflawni ei swyddogaeth fel yr Awdurdod Trwyddedu, yn cyhoeddi “Polisi Trwyddedu” sy’n cyflwyno’r polisïau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio’n gyffredinol i hyrwyddo’r Amcanion Trwyddedu wrth benderfynu ar geisiadau a wneir dan y Ddeddf. Dyma’r Datganiad Polisi hwnnw a baratowyd yn unol â darpariaethau’r Ddeddf a fersiwn diweddaraf Canllawiau’r Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd dan adran 182 o’r Ddeddf. Cymeradwyodd y Cyngor y Polisi Trwyddedu hwn ar 30ain Tachwedd 2015, a daw i rym ar 7fed Ionawr 2016.

1.2 Cyngor Sir Penfro (“y Cyngor”) yw’r Awdurdod Trwyddedu dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac ef sy’n gyfrifol am roi trwyddedau eiddo, tystysgrifau eiddo clwb, a thrwyddedau personol o ran gwerthu a/neu gyflenwi alcohol a darparu adloniant rheoledig a lluniaeth hwyrnos. Drwy’r ddogfen i gyd, bydd y Cyngor yn cael ei gyfeirio ato fel yr Awdurdod Trwyddedu, pan fo hynny’n briodol i osgoi dryswch rhwng y swyddogaeth hon a swyddogaethau eraill y Cyngor.

1.3 Mae’r Polisi hwn yn dangos sut fydd yr Awdurdod Trwyddedu’n ystyried ceisiadau am drwyddedau sy’n ofynnol dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

1.4 Wrth ddatblygu’r Polisi Trwyddedu hwn, ystyriwyd cyngor cyrff fel Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) ac amrywiol gymdeithasau masnachol ble bynnag y bo modd. Ystyriwyd polisïau corfforaethol eraill a fabwysiadwyd gan y Cyngor hefyd, a bydd y rhain yn cael eu cyfeirio atynt drwy’r ddogfen hon i gyd fel y bo’n briodol.

1.5 Cyflwynodd Deddf Cydraddoldebau 2010 fesurau i drechu rhagfarn yn erbyn pobl anabl mewn rhai meysydd gan gynnwys cyflogaeth; a mynediad at nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau. Bydd gofyn i unrhyw geisydd ystyried y ddeddfwriaeth hon. Fodd bynnag, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu’n defnyddio trwyddedu i fynd ar drywydd materion o’r fath, heblaw gyda chefnogaeth deddfwriaeth ac arferion da cyffredin.

1.6 Mae ymrwymiad cyfreithiol ar y Cyngor i gydymffurfio â holl ddeddfwriaeth sy’n hyrwyddo cydraddoldeb, ac mae ganddo bolisi i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb. Mae gan y maes Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu’r Cyhoedd ei fframwaith cydraddoldeb ei hun sydd ar gael i’w archwilio ar ein gwefan. Bydd trwyddedu pobl ac eiddo dan y Ddeddf yn mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb gwasanaeth a gorfodaeth i bob aelod o’r gymuned.

1.7 Mae Deddf Iawnderau Dynol 1998 yn ymgorffori’r Cytundeb Ewropeaidd ar

Iawnderau Dynol ac yn ei gwneud yn anghyfreithlon i awdurdod lleol weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawl o'r fath. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried Deddf Iawnderau Dynol wrth ystyried unrhyw faterion trwyddedu ac, yn enwedig, o ran sut gaiff ceisiadau eu hystyried a gweithgareddau gorfodi eu gwneud.

1.8 Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun, a hefyd yng ngoleuni'r Polisi hwn, y Ddeddf a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan y Ddeddf hon.

1.9 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n derbyn y gall fod angen iddo wyro o'r Polisi hwn ac o'r canllawiau a gyhoeddwyd dan y Ddeddf dan amgylchiadau unigol ac eithriadol, a lle bo'r achos yn haeddu penderfyniad o'r fath er mwyn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu. Bydd unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei wneud ar ôl ymgynghori â chynghorwyr cyfreithiol priodol yr Awdurdod Trwyddedu, a bydd y rhesymau dros unrhyw wyriad o'r fath yn cael eu cofnodi'n llawn.

1.10 Ni fydd y Polisi Trwyddedu'n ceisio rheoleiddio materion y mae darpariaeth ar eu cyfer yn unrhyw ddeddfwriaeth arall a bydd yn ceisio ategu cyfundrefnau o'r fath, e.e. cynllunio, iechyd a diogelwch, hawliau cyflogaeth, diogelu rhag tân, ac ati.

1.11 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n dymuno annog trwyddedeion i ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau adloniant yn Sir Benfro drwy gydol eu horiau agor a hyrwyddo cerddoriaeth fyw, dawnsio, theatr, ac ati er budd diwylliannol ehangach y gymuned.

1.12 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn diweddaru a chyhoeddi Polisi Trwyddedu newydd pryd bynnag y bydd angen ond, sut bynnag, cyn pen **pum mlynedd** ar ôl dyddiad y Polisi hwn, a bydd yn ymgynghori'n llawn ag Awdurdodau Cyfrifol, partneriaid, deiliaid trwyddedau, cymdeithasau masnachol, busnes a grwpiau trigolion fel y bo'n briodol bryd hynny. Fe ystyrir unrhyw achosion a ddaw i law ar yr adeg honno. Fodd bynnag pan fo angen diweddariadau oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth genedlaethol, canllawiau statudol neu fanylion cysylltu, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid y Polisi hwn heb ymgynghori pan fo angen sicrhau bod y Polisi'n adlewyrchu deddfwriaeth genedlaethol neu ganllawiau statudol. Bydd unrhyw adolygiadau'n cael eu cyhoeddi.

1.13 Bydd yr adolygiad polisi hwn yn ystyried y materion canlynol:

- Y newidiadau i'r Ddeddf a wnaed gan y canlynol:
    - ❖ Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011
    - ❖ Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012

- Deddf Dadreoleiddio 2015
- Offerynnau Statudol a wnaed
- Canllawiau Diwygiedig a gyhoeddwyd dan adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003

## 2. Proffil o'r Sir

### Sir Benfro

Poblogaeth Sir Benfro yw tua 123,300 (ffigurau 2013) ac mae'n wledig yn bennaf. O amgylch chwe phrif dref Abergwaun, Hwlffordd, Aberdaugleddau, Dinbych-y-pysgod, Penfro a Doc Penfro mae pentrefi niferus, i gyd gyda'u cymeriadau unigol eu hunain.


Nodwyd tua 900 eiddo yn y Sir sy'n dal amrywiaeth o drwyddedau a thystysgrifau'n darparu Adloniant Rheoledig a/neu adwerthu alcohol dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae amryw glybiau preifat, ychydig o sinemâu ac amryw eiddo ac adeiladau sydd ag oriau hwyrnos. Hefyd mae mannau cyfarfod lleol eraill fel neuaddau pentref, cymuned ac ysgol yn lleoliadau llawer o weithgareddau diwylliannol. Datblygodd y portffolio digwyddiadau yn y Sir yn sylweddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gydag amryw wyliau awyr agored a digwyddiadau chwaraeon awyr agored nodedig. Mae'r Cyngor yn ceisio denu achlysuron lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol i'r Sir, gan gydnabod y buddiannau diwylliannol, cymunedol ac economaidd sy'n deillio o'r digwyddiadau hyn.

Mae llawer o dai tafarn yn y Sir oddi allan i'r prif drefi, llawer o'r rhain yn y pentrefi bach gwledig sy'n ganolbwynt i fywyd cymunedol. Mewn achosion eraill fe all y canolbwynt hwn fod yn siopau bach sy'n gwerthu alcohol. Mae'r eiddo lluniaeth hwyrnos pennaf yn y prif drefi.

Oherwydd natur wledig y Sir, mae eiddo ac achlysuron a drwyddedwyd dan y Ddeddf yn gwneud cyfraniad hanfodol at yr economi lleol, trwy dwristiaeth a datblygiad diwylliannol. Cyflogaeth yn Sir Benfro oedd 44,200 yn 2013, cynnydd o 2.8% ers 2009. Mae hwn yn gynnydd cyflymach nag yng Nghymru gyfan (0.6%) a Phrydain (1.6%). Mae gan Sir Benfro grynoadau sylweddol o gyflogaeth yn y canlynol: llety a gweini bwyd; celfyddyd, adloniant a hamdden; adeiladu; a diwydiannau cloddiol.

Mae'r diwydiant ymwelwyr yn effeithio'n sylweddol ar y boblogaeth ar rai adegau o'r flwyddyn. Caiff 6,900 o weithwyr cyflogedig (3,800 yn fwy na'r cyfartaledd) eu cyflogi mewn twristiaeth, gyda niferoedd sylweddol yn gweithio mewn llety a safleoedd gwersylla, atyniadau ymwelwyr, tai bwyta a chaffis, clybiau, tafarnau a bariau.

**Ffigur 1: Tiriogaeth Cyngor Sir Penfro**




## 3. Y Pwyllgor Trwyddedu

3.1 Bydd y Cyngor yn penodi Pwyllgor Trwyddedu yn unol â'i Gyfansoddiad.

3.2 Mae'r Pwyllgor Trwyddedu wedi sefydlu Is-bwyllgorau (paneli) o dri Aelod o'r Pwyllgor, i ystyried ceisiadau lle derbyniwyd sylwadau gan Awdurdodau Cyfrifol a/neu unrhyw bobl eraill.

3.3 Bydd y Pwyllgor ac Is-bwyllgorau Trwyddedu hefyd yn cyfarfod i benderfynu

ceisiadau nad ydynt yn gysylltiedig â'r Ddeddf, fel trwyddedu tacsis a cherbydau llogi preifat.

3.4 Er mwyn llywodraethu da, pan fo gan Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Trwyddedu neu Is-bwyllgor Trwyddedu fudd ariannol neu bersonol uniongyrchol neu anuniongyrchol yn unrhyw fater o'u blaenau, byddant yn cael eu gwahardd rhag unrhyw gyfranogiad yn y broses gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar yr eiddo. Ni fydd Cynghorwyr yn rhan o Is-bwyllgor sy'n ystyried cais yn eu 'Ward'.

3.5 Bydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu'n cyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu unrhyw fater nad yw'n gallu delio ag ef oherwydd bod llai na thri aelod yn gallu ystyried y mater ger bron yr Is-bwyllgor.

3.6 Bydd y Pwyllgor Trwyddedu'n cyfeirio at yr 'Awdurdod Trwyddedu' [y Cyngor], unrhyw fater nad yw'n gallu delio ag ef oherwydd bod llai na chworwm yr Aelodau'n gallu ystyried y mater ger bron y Pwyllgor.

3.7 Gyda phob un o benderfyniadau trwyddedu'r Pwyllgor Trwyddedu neu Is-bwyllgor Trwyddedu bydd rhesymau dros y penderfyniad. Caiff crynodeb o'r penderfyniad ei hysbysu i'r rhai sy'n berthnasol i'r gwrandawiad, o fewn amser targed o bymtheg diwrnod, ond bydd ymdrech i wneud hyn mor fuan ag sy'n ymarferol ar ôl dyddiad y gwrandawiad, i'w arddangos ar wefan y Cyngor.

3.8 Bydd Swyddogion Trwyddedu'r Cyngor yn delio â holl geisiadau am drwyddedau naill ai lle na chafwyd unrhyw sylw perthnasol, neu lle derbyniwyd sylwadau a phawb yn cytuno nad oes angen gwrandawiad.

3.9 Bydd adroddiad cyfnodol yn cael ei wneud i'r Pwyllgor Trwyddedu ar arfer pwerau dirprwyedig.

3.10 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod Aelodau a swyddogion perthnasol yn cael hyfforddiant priodol i wneud eu dyletswyddau dan y Ddeddf.

3.11 Mae materion cysylltiedig â'r Ddeddf i gael eu trin fel y pennwyd yng nghynllun dirprwyo'r Cyngor yn ôl ei Gyfansoddiad (gwelwch Adran 31).

## 4. Egwyddorion Sylfaenol

4.1 Mae trwyddedu'n ymwneud â rheoli eiddo trwyddedig, clybiau cymwys a digwyddiadau dros dro o fewn telerau'r Ddeddf, ac mae modd rhoi amodau ar drwyddedau, tystysgrifau a chaniatâd fydd yn cwmpasu materion sydd o fewn

rheolaeth trwyddedeion unigol.

4.2 Wrth ystyried yr amodau hyn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n canolbwyntio'n bennaf ar effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n digwydd mewn eiddo trwyddedig ar y cyhoedd sy'n byw, yn gweithio neu wrth eu gweithgaredd arferol yn y cylch dan sylw.

4.3 Yn hyn o beth, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n derbyn bod sawl peirianwaith arall ar gael, ar wahân i'r swyddogaeth drwyddedu, i roi sylw i faterion all ddigwydd draw o'r eiddo trwyddedig, gan gynnwys y canlynol:

- rheolaeth gynllunio;
- mesurau cadarnhaol i greu amgylchedd diogel a glân ynghanol trefi mewn partneriaeth â busnesau lleol, gweithredwyr cludiant a Chyfarwyddiaethau eraill yr awdurdod lleol;
- darparu gwyliadwriaeth TCC ynghanol trefi, safleoedd tacsis, darparu cyfleusterau cyhoeddus sydd ar agor yn hwyr y nos, glanhau strydoedd a phatrolau ysbwriel;
- pwerau awdurdodau lleol i ddynodi rhannau o diriogaeth yr awdurdod lleol fel mannau lle nad oes hawl yfed alcohol yn gyhoeddus;
- cymryd alcohol oddi ar oedolion a phlant mewn ardaloedd dynodedig;
- gorfodaeth yr Heddlu o'r gyfraith gyffredinol ynghylch anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys rhoi rhybuddion cosb benodedig;
- erlyniad am drosedd gwerthu alcohol i rywun sy'n feddw (neu ganiatáu gwerthiant o'r fath);
- pwerau'r Heddlu i gau unrhyw eiddo trwyddedig ar unwaith am hyd at 24 awr (estynadwy i 48 awr) y mae TEN yn berthnasol iddo ar sail anhrefn, tebygolrwydd anhrefn, neu sŵn yn dod o'r eiddo gan achosi niwsans; a
- pŵer yr Heddlu, awdurdodau cyfrifol eraill neu bobl eraill i ofyn am adolygu trwydded neu dystysgrif.
- codi cyfraniad at blismona'r economi hwyrnos trwy'r Ardoll Hwyrnos.
- Gorchmynion Cyfyngu ar Alcohol Ben Bore.

## 5. Parthau ac oriau trwyddedu

5.1 Trwy ymarfer ei swyddogaethau trwyddedu, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ceisio cyfyngu ar oriau masnachu unrhyw eiddo arbennig oni bai ei bod yn cael ei ystyried yn briodol hyrwyddo un neu fwy o'r Amcanion Trwyddedu. Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol yn ôl ei rinweddau ei hun.

5.2 Yn niffyg unrhyw resymau penodol cysylltiedig â'r Amcanion Trwyddedu, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ceisio cyfyngu ar allu siopau trwyddedig i werthu alcohol i'w yfed allan o'r eiddo drwy gydol eu horiau masnachu cyffredinol. Enghraifft o achlysur pan ellid ystyried cyfyngiad fyddai dilyn sylwadau'r Heddlu bod siop yn hysbys fel canolbwynt trosedd ac anhrefn.

5.3 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n derbyn bod rhoi mwy o ddewis a hyblygrwydd i ddefnyddwyr yn ystyriaeth bwysig a bod oriau trwyddedu hyblyg i werthu alcohol, lluniaeth hwyrnos ac adloniant rheoledig dan rai amgylchiadau'n gallu helpu sicrhau osgoi crynoadau cwsmeriaid yn gadael eiddo ar yr un pryd sydd, yn ei dro, yn gallu lleihau'r gwrthdaro mewn bwytai brys hwyrnos, safleoedd tacsis a ffynonellau cludiant eraill sy'n gallu arwain at drosedd, anhrefn ac aflonyddwch.

5.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn derbyn na ddylai oriau trwyddedu atal datblygu economïau lleol noswaith a hwyrnos ffyniannus a diogel sy'n bwysig i fuddsoddiad a chyflogaeth yn lleol ac yn ddeniadol i ymwelwyr cartref a rhyngwladol.

5.5 Fodd bynnag, pan fo ganddo ddewis, bydd yr Awdurdod Trwyddedu bob amser yn mantoli'n ofalus yr ystyriaethau yn 5.3 a 5.4 uchod gyferbyn â'i ddyletswydd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu a gwarchod hawliau trigolion a busnesau.

5.6 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn nodi canllawiau'r Llywodraeth nad oes rhagdybiaeth gyffredinol o blaid ymestyn oriau trwyddedu ac mai'r pedwar amcan trwyddedu a ddylai fod yn ystyriaethau pennaf bob amser. Pan fo sylwadau perthnasol yn erbyn cais, a'r Pwyllgor Trwyddedu'n credu y byddai caniatáu'r oriau trwyddedu arfaethedig yn tanseilio'r Amcanion Trwyddedu, yna gall wrthod y cais neu ei ganiatáu gydag amodau priodol a/neu oriau gwahanol i'r rhai y gofynnwyd amdanynt.

5.7 Heb ystyried yr oriau gweithredu a ganiatawyd i eiddo dan unrhyw drwydded dan y Ddeddf, dylai gweithredwyr yr eiddo sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw gyfyngiad ar oriau a bennir dan unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall mewn grym – er enghraifft cyfraith Cynllunio, Deddf Masnachu ar y Sul 1994 neu Ddeddf Dydd Nadolig (Masnachu) 2004.

5.8 Fe all y Cyngor ystyried y pŵer i wneud Gorchymyn Cyfyngiad Ben Bore (EMRO) ochr yn ochr ag unrhyw Bolisi Effaith Gronnol. Mae manylion y pwerau hyn i'w cael yn adrannau 33 a 34 y Polisi hwn.

5.9 Tra bo'r Awdurdod Trwyddedu'n derbyn y gall oriau trwyddedu hyblyg leihau trosedd, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy ganiatáu gwasgaru cwsmeriaid yn fwy graddol, dengys profiad bod mwyafrif y ceiswyr newydd yn ardaloedd canol y dref yn gofyn am oriau agor i gyd-fynd â chystadleuwyr. Tra nad yw hyn yn cael ei annog mae'r Awdurdod Trwyddedu yn deall y rhesymau pam fod ceiswyr yn gwneud hyn.

5.10 Caiff ceiswyr eu hannog i gynnwys yn eu hamserlenni gweithredu nid yn unig yr oriau safonol pan fyddant eisiau gwneud gweithgareddau trwyddedadwy, ond hefyd achlysuron arbennig fel gwyliau banc pan allant fod eisiau masnachu am awr neu ddwy ychwanegol. Bydd darparu ar gyfer y mathau hyn o achlysur yn lleihau'r angen i wneud ceisiadau amrywio.

5.11 Nid oes unrhyw ddarpariaeth arbennig ddiofyn ar gyfer Nos Galan. Os yw ceiswyr yn dymuno manteisio ar oriau masnachu hwy yn ystod y cyfnod hwn, dylid cynnwys hyn yn yr amserlen weithredu.

## 6. Galw masnachol

6.1 Nid mater i'r Awdurdod Trwyddedu fydd y galw masnachol am drwyddedau eiddo ychwanegol (yn hytrach nag effaith gronnol); ystyriaeth benodol i'r awdurdod cynllunio lleol yw materion o'r fath gan ystyried galwadau'r fasnach drwyddedig a galwadau'r farchnad.

## 7. Niwed Alcohol

7.1 Ym mis Mehefin 2007 cyhoeddwyd "Diogel, Call, Cymdeithasol – Y Camau Nesaf yn y Strategaeth Alcohol Genedlaethol". Roedd y strategaeth hon yn cwmpasu Lloegr ond paratowyd mewn trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ac mae'n adlewyrchu'r themâu cyffredin o fewn polisïau Cymru sy'n anelu at fynd i'r afael â'r niwed sy'n deillio o gamddefnyddio alcohol.

7.2 "Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed – Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018 (Llywodraeth Cymru 2008)" yw strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'r niweidiau cysylltiedig â chamddefnyddio alcohol, cyffuriau a sylweddau eraill.

7.3 Tri o ddangosyddion iechyd y boblogaeth sy'n cael ei ddefnyddio i gadw golwg ar dueddiadau camddefnyddio alcohol yw:

- Canran yr unigolion sy'n 'yfed' uwchlaw'r lefelau cymeradwy ar y diwrnod yfed trymaf yn ystod yr wythnos aeth heibio;

- Canran yr unigolion sy'n 'yfed yn drwm' (mewn pyliau – gwrywod dros 8 uned, benywod dros 6 uned) ar y diwrnod yfed trymaf yn ystod yr wythnos aeth heibio;
- Canran yr unigolion sy'n 'yfed yn drwm iawn' (mewn pyliau trwm – gwrywod dros 12 uned, benywod dros 9 uned) ar y diwrnod yfed trymaf yn ystod yr wythnos aeth heibio.

Mae'r data diweddaraf ar gyfer Sir Benfro (Arolwg Iechyd Cymru, 2014) yn dangos:

- bod 36% o oedolion yn Sir Benfro'n sôn am 'yfed' uwchlaw canllawiau cymeradwy, sy'n is na chyfraddau Cymru (41%) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (39%);
- bod 20% o oedolion yn Sir Benfro'n sôn am 'yfed trwm' (mewn pyliau), sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (Arolwg Iechyd Cymru 2014).

DS. Mae'r ffigurau hyn yn hunan-hysbysedig ac yn debygol o fod yn llai na'r gwirionedd oherwydd bod holl gyfraddau yfed arolygon cenedlaethol yn nodweddiadol yn wahanol i ffigurau gwerthiant alcohol.

7.4 Mae niweidiau o gamddefnyddio alcohol yn niferus ac yn effeithio ar unigolion, teuluoedd, cymunedau a sefydliadau. Fe all niweidiau amrywio o'r uniongyrchol, fel trosedd, trais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, i'r hirdymor, sy'n cynnwys chwalfa deuluol, mynd i'r ysbyty a marwolaeth yn y pen draw. Bob wythnos yng Nghymru mae 29 o farwolaethau o ganlyniad i alcohol; rhyw 1 ymhob 20 o holl farwolaethau (Iechyd Cyhoeddus Cymru 2014).

7.5 Trwyddedu yw'r peirianwaith sy'n rheoleiddio argaeledd alcohol yn y DU. Gall y polisi hwn chwarae rhan allweddol wrth leihau niweidiau camddefnyddio alcohol sy'n cael eu dioddef gan ei phoblogaeth (unigolion a theuluoedd), cymunedau a sefydliadau.

7.6 Yn 2010, amlinellodd y Llywodraeth gynlluniau i ailwampio'r gyfundrefn drwyddedu bresennol, er mwyn rhoi mwy o bŵer i awdurdodau lleol a'r Heddlu, i helpu iddynt ddelio â throsedd ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol, ar yr un pryd â hyrwyddo yfed cyfrifol. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori yn dwyn yr enw "Ailfantoli Deddf Trwyddedu – ymgynghoriad ar roi grym i unigolion, teuluoedd a chymunedau lleol lunio a phenderfynu trwyddedu lleol" ac fe arweiniodd at ddeddfwriaeth ychwanegol i gynorthwyo rheolyddion gadw trefn ar werthu a chyflenwi alcohol a'r cyhoedd i wneud sylwadau ar eiddo trwyddedig.

7.7 Rhoddwyd amodau gorfodol ar holl Drwyddedau Eiddo a Thystysgrifau Eiddo Clwb wrth iddynt ddechrau, a luniwyd i leihau enghreifftiau o gynigion yfed

arbennig annerbyniol a gweithgareddau eraill a ddosbarthwyd fel anghyfrifol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n cadw llygad barcud ar eiddo er mwyn sicrhau bod deiliaid trwyddedau'n cadw at yr amodau hyn.

## 8. Cyffuriau

8.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n derbyn nad yw camddefnyddio cyffuriau'n rhywbeth sy'n berthnasol i holl eiddo trwyddedig. Fodd bynnag, mae'n ymroddi i leihau a dileu cyffuriau o eiddo trwyddedig lle bo modd fel rhan o'i swyddogaeth hyrwyddo amcan trwyddedu trosedd ac anhrefn. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i holl ddeiliaid trwyddedau gefnogi'r nod hwn yn weithredol yn y ffordd y byddant yn cynllunio, rheoli a gweithredu eiddo.

8.2 Os daw sylwadau perthnasol ynghylch cais i roi neu amrywio trwydded, mae modd gosod amodau arbennig i gynorthwyo atal cyflenwi neu ddefnyddio cyffuriau rheoledig yn anghyfreithlon. Bydd cyngor ar amodau'n cael ei geisio oddi wrth yr heddlu neu unrhyw sefydliad perthnasol arall sy'n ymwneud â rheoli cyffuriau rheoledig neu gynorthwyo a/neu drin defnyddwyr cyffuriau.

8.3 Mewn eiddo lle mae camddefnyddio cyffuriau'n peri problem, a lle bo unrhyw Awdurdod Cyfrifol neu rywun arall yn gwneud cais am adolygiad o'r drwydded, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried bod hyn yn ddifrifol iawn a bydd yn rhoi ystyriaeth briodol i rychwant llawn y dewisiadau sydd ar gael, gan gynnwys atal a diddymu'r drwydded yn unol â chanllawiau statudol yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n derbyn bod pob achos yn unigol a bydd yn cael ei benderfynu yn ôl ei ffeithiau a'i rinweddau penodol ei hun.

8.4 Tuedd ddiweddar fu defnydd ac argaeledd Sylweddau Seicoweithredol Newydd (NPS), 'cyffuriau cyfreithlon' bondigrybwyll. Mae'r Awdurdod yn derbyn bod deddfwriaeth weithiau'n araf cyn newid i ddelio â sylweddau o'r fath a bod gan yr Heddlu ac awdurdodau lleol bwerau dan ddeddfwriaeth arall i fynd i'r afael ag eiddo sy'n cyflenwi sylweddau y gellid eu hystyried yn gyffuriau cyfreithlon. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i ddeiliaid trwyddedau a chlybiau cymwys fynd ati i atal ac annog rhag defnyddio neu gyflenwi sylweddau o'r fath mewn eiddo trwyddedig. Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw broblem gyda NPS yn unol â deddfwriaeth gyfredol a pholisi'r llywodraeth.

## 9. Amcanion Trwyddedu

9.1 Mae dyletswydd ar yr Awdurdod Trwyddedu dan y Ddeddf i wneud ei

swyddogaethau gyda'r nod o hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu. Yr Amcanion Trwyddedu (pob un ohonynt yr un mor bwysig â'i gilydd) yw:

- **Atal trosedd ac anhrefn;**
- **Diogelwch y cyhoedd;**
- **Atal niwsans cyhoeddus;**
- **Gwarchod plant rhag niwed.**

9.2 Mae'n cael ei dderbyn nad y swyddogaeth drwyddedu yw'r prif ddull o sicrhau cyflawni'r amcanion hyn. Felly, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n parhau i weithio fel partner gyda'i awdurdodau cyfagos, yr Heddlu, busnesau lleol, trwyddedeion a phobl leol tuag at hyrwyddo'r amcanion.

## 10. Atal trosedd ac anhrefn

10.1 Fe all eiddo trwyddedig, yn enwedig y rhai sy'n cynnig adloniant hwyrnos / ben bore, alcohol a lluniaeth i nifer mawr o bobl, fod yn ffynhonnell problemau trosedd ac anhrefn.

10.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i amserlenni gweithredu (gwelwch Adran 28) roi sylw boddhaol i'r materion hyn, o gynllunio'r eiddo drwodd i weithredu'r busnes o ddydd i ddydd.

10.3 Yr argymhelliad i geiswyr wrth iddynt baratoi eu cynlluniau ac amserlenni gweithredu yw gofyn am gyngor swyddogion trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu, yn ogystal ag ystyried, fel y bo'n briodol, polisïau cynllunio a chludiant lleol, twristiaeth, strategaethau diwylliannol ac atal troseddu.

10.4 Yn ogystal â'r gofynion bod yr Awdurdod Trwyddedu'n hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu, mae ganddo ddyletswydd hefyd dan adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i arfer ei amrywiol swyddogaethau gydag ystyriaeth briodol i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar drosedd ac anhrefn yn Sir Benfro, a'r angen i wneud popeth a all o fewn rheswm i'w hatal.

## 11. Atal niwsans cyhoeddus

11.1 Fe all eiddo trwyddedig effeithio'n anffafriol iawn ar bobl yn y cyffiniau ac ymhellach draw trwy niwsans cyhoeddus sy'n deillio o'u gweithrediad.

11.2 Yn amodol ar gyfraith achosion mae'r Awdurdod Trwyddedu'n dehongli

‘niwsans cyhoeddus’ yn ei ystyr ehangaf, ac mae’n ystyried ei fod yn cynnwys materion fel sŵn, goleuni, aroglau, ysbwriel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, lle bo’r materion hyn yn effeithio ar y rhai sy’n byw, yn gweithio neu fel arall yn ymgymryd â gweithgaredd arferol yng nghyffiniau eiddo trwyddedig.

11.3 Bydd ceiswyr yn cael eu hannog i ddangos yn eu hamserlen weithredu bod mesurau addas a digonol wedi cael eu nodi ac y byddant yn cael eu gweithredu a’u cynnal i atal niwsans cyhoeddus.

11.4 Mae’r Awdurdod Trwyddedu’n argymell bod trwyddedeion yn rheoli i safon uchel er mwyn lleihau’r posibilrwydd y bydd unrhyw niwsans cyhoeddus yn deillio o’u gweithrediad o’r eiddo, yn enwedig:

- pan fo’r eiddo mewn ardal breswyl neu sensitif i sŵn; neu
- pan fo oriau agor estynedig yn cael eu cynnig.

11.5 Mae’r Awdurdod Trwyddedu’n derbyn bod y rheolaeth sydd gan ddeiliaid trwyddedau dros eu cwsmeriaid ymhellach o’u heiddo’n lleihau a bod unigolion sy’n ymddwyn yn wrthgymdeithasol yn atebol eu hunain. Nid yw’r gyfundrefn drwyddedu’n beirianwaith ar gyfer rheolaeth gyffredinol o niwsans ac ymddygiad gwrthgymdeithasol unigolion unwaith y byddant y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr unigolyn, clwb neu fusnes sy’n dal y drwydded, tystysgrif neu ganiatâd dan sylw.

11.6 Wrth roi sylw i fater atal niwsans cyhoeddus yn eu hamserlenni gweithredu, caiff ceiswyr eu hannog i nodi camau sy’n dangos bod y ffactorau hynny sy’n effeithio ar amcan atal niwsans cyhoeddus wedi cael eu hystyried (gwelwch Atodiad A).

## 12. Diogelwch y cyhoedd

12.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu’n disgwyl i amserlenni gweithredu roi sylw boddhaol i faterion cysylltiedig â diogelwch y cyhoedd, a’r cyngor i geiswyr yw gofyn am gyngor amrywiol sefydliadau, fel yr asiantaethau gorfodi iechyd a diogelwch, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac ati, cyn paratoi eu cynlluniau ac amserlenni, yn enwedig pan fo adloniant rheoledig i gael ei ddarparu.

12.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu’n annog ceiswyr i wneud asesiad peryglon o’r eiddo a/neu weithgaredd. Mae’r Awdurdod yn argymell y dylid ymgynghori ag arbenigwyr, e.e. swyddog diogelwch cymwysedig, i gynorthwyo gyda’r asesiad.

## 13. Gwarchod plant rhag niwed

13.1 Ni fydd dim yn y datganiad hwn o bolisi'n cyfyngu ar neu atal mynediad plant i eiddo oni bai fod gofyniad gor-redol o reidrwydd i atal niwed i blant. Caiff sylw ei dynnu at feysydd fydd yn peri pryder arbennig mewn man arall yn y polisi hwn. Dylid ystyried rhinweddau unigol pob cais ymhob achos.

13.2 Ac eithrio'r cyfyngiadau a bennir yn Adran 145, nid yw'r Ddeddf yn gwahardd plant rhag mynediad rhydd i unrhyw eiddo trwyddedig. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n derbyn y gall fod raid ystyried cyfyngiadau lle bo'n ymddangos yn angenrheidiol i amddiffyn plant rhag niwed.

13.3 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gosod unrhyw amod sy'n gofyn yn benodol am ddarparu mynediad i blant yn unrhyw eiddo. Lle nad oes unrhyw derfyn neu gyfyngiad yn cael ei osod bydd mynediad yn aros yn fater i ddoethineb yr eiddo neu glwb unigol.

13.4 Mae'r Ddeddf yn manylu nifer o droseddau a luniwyd i amddiffyn plant mewn eiddo trwyddedig a bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gweithio'n agos gyda'r Heddlu i sicrhau gorfodi'r gyfraith yn briodol, yn enwedig mewn cysylltiad â gwerthu a chyflenwi alcohol i blant.

13.5 Bydd ymgynghori â Chyfarwyddwr Plant ac Ysgolion y Cyngor ar faterion yn ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed.

13.6 Dengys tystiolaeth bod pobl ifanc yn fwy agored nag oedolion i effeithiau andwyol alcohol oherwydd amrywiaeth o ffactorau ffisegol a seicogymdeithasol. Fel y cyfryw, caiff camau i atal rhag gwerthu a chyflenwi alcohol i blant eu cefnogi.

## 14. Hawliau gwneud sylwadau

14.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i geiswyr roi sylw i'r Amcanion Trwyddedu yn eu hamserlenni gweithredu gyda golwg ar y math o eiddo, y gweithgareddau trwyddedadwy i'w darparu, y trefnau gweithredol, natur y lleoliad ac anghenion y gymuned leol, er mwyn bod y rhai gyda hawl i wneud sylwadau neu wrthwynebu'n gallu asesu'n llawn y ffactorau all effeithio arnynt.

14.2 Mae modd gwneud sylwadau perthnasol gan Awdurdod Cyfrifol, pobl eraill neu sefydliadau sy'n eu cynrychioli, ond dylent ddatgan pa un ai ydynt yn gwneud

sylwadau ar eu rhan eu hunain neu ar ran rhywun arall.

14.3 Mae newidiadau i'r Ddeddf wedi mewnosod y term 'rhywun arall' yn lle 'rhywun â diddordeb' fel rhai sy'n gallu cyflwyno sylwadau. Fe dynnodd hefyd y prawf cyffiniau ar drigolion a'r term penodol "cynghorydd". Mae hyn yn ymestyn amrywiaeth y bobl sy'n gallu gwneud sylwadau ac mae'n cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Trigolion sy'n byw ger yr eiddo
- Pobl gyda diddordeb yn yr eiddo neu'r fro
- Cynghorwyr lleol
- Busnesau gyda diddordeb yn yr eiddo neu'r fro
- Sefydliadau gyda diddordeb yn y fro, yr eiddo neu weithgareddau trwyddedadwy

Bydd y Cyngor yn gorfod penderfynu a yw'r sylwadau'n berthnasol a/neu'n rhesymol ac, wrth wneud hynny, bydd yn asesu'r bobl neu sefydliadau sy'n gwneud y sylwadau a'u perthynas â'r eiddo a/neu'r cyffiniau.

14.4 Bydd sylwadau perthnasol yn cael eu hystyried fel y rhai sy'n gysylltiedig ag egwyddorion sylfaenol y Ddeddf ac, felly, bydd angen i unrhyw sefydliad neu unigolyn sydd am wrthwynebu unrhyw gais ddatgan a ydynt yn gwneud hynny ar un neu fwy o'r ancanion trwyddedu canlynol:

- Atal trosedd ac anhrefn;
- Diogelwch y cyhoedd;
- Atal niwsans cyhoeddus;
- Gwarchod plant rhag niwed.

14.5 Bydd sylwadau afresymol, gwamal a blinderus yn cael eu diystyru. Fe all sylwadau a wnaed ac a ystyriwyd yn rhywle arall, er enghraifft fel gwrthwynebiad i gais cynllunio, gael eu hanwybyddu hefyd lle byddai ystyried sylwadau o'r fath yn ailadrodd.

## 15. Awdurdodau cyfrifol

15.1 Mae'r Ddeddf fel y newidiwyd yn pennu pa rai yw'r awdurdodau cyfrifol sy'n gallu gwneud sylwadau ar geisiadau neu wneud cais i adolygu trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb, sef:

- Prif Swyddog yr Heddlu

- Yr Awdurdod Tân
- Yr awdurdod gorfodi ar gyfer Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
- Yr awdurdod cynllunio lleol
- Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am leihau neu atal perygl llygru'r amgylchedd neu niwed i iechyd dynol
- Yr awdurdod pwysau a mesur lleol
- Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r corff sy'n cynrychioli materion perthnasol i warchod plant rhag niwed, ar hyn o bryd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant
- Mewn cysylltiad â chwch, awdurdod mordwyo, Asiantaeth yr Amgylchedd, neu Fwrdd Dyfrffyrdd Prydain
- Y Bwrdd Iechyd Lleol (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)
- Yr Awdurdod Trwyddedu (Y Cyngor)

## 16. Pobl eraill

16.1 Erbyn hyn mae newidiadau i'r Ddeddf, yn rhinwedd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, wedi dileu'r prawf "cyffiniau" o Ddeddf 2003 ac, o ganlyniad, nid yw categorïau "rhywun â diddordeb" yn bodoli mwyach.

16.2 Felly, mae unrhyw un yn gallu cyflwyno sylwadau mewn cysylltiad â mathau arbennig o geisiadau fel "rhywun arall". Fodd bynnag, rhaid i holl sylwadau fod yn berthnasol i'r Amcanion Trwyddedu ac ni chânt fod yn wamal neu flinderus.

## 17. Cyfannu strategaethau

17.1 Mae amrywiaeth o ddylanwadau strategol a rheolaethau statudol sy'n effeithio ar y gyfundrefn drwyddedu o ran ffurfio polisi, gweinyddu a gweithgareddau gorfodi. Wrth wneud ei swyddogaethau mae gan y Cyngor ddyletswyddau, cyfrifoldebau ac ystyriaethau dan ddeddfwriaeth a strategaethau eraill, er enghraifft:

a) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (yn arbennig rhwymedigaethau dan adran 17 cysylltiedig ag atal trosedd ac anhrefn);
b) Y Cytundeb Ewropeaidd ar Iawnderau Dynol, sy'n cael ei weithredu drwy Ddeddf Iawnderau Dynol 1998;
c) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001;
d) Deddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006;
e) Deddf Plismona a Throsedd 2009;
f) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011
g) Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (yn

arbennig y Gorchymyn Atal mewn Mannau Cyhoeddus i gadw trefn ar yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus oddi allan i eiddo trwyddedig);

h) Deddf Cydraddoldebau 2010;
i) Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (yn arbennig y pwerau sydd ar gael dan adrannau 40 a 41 cysylltiedig â chau eiddo ar sail niwsans cyhoeddus oherwydd sŵn);
j) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (fel y newidiwyd);
k) Deddf Sŵn 1996;
l) Deddf Iechyd 2006;
m) Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974;
n) Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (gan gynnwys pwerau i'r Awdurdod Lleol roi rhybuddion cosb benodedig i eiddo trwyddedig yn lledaenu sŵn sydd uwchlaw'r lefel ganiataol rhwng 11pm a 7am);
o) Deddf Masnachu ar y Sul 1994
p) Deddf Dydd Nadolig (Masnachu) 2004
q) Deddf Diogelwch mewn Meysydd Chwarae 1975
r) Deddf Iechyd Cyhoeddus 2006
s) Unrhyw Strategaeth Alcohol Genedlaethol
t) Gweithdrefn gyhoeddedig y Cyngor at drin deisebau a'i rwymedigaethau dan Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009;
u) Polisi cyhoeddedig y Cyngor ar Ddiogelu Plant
v) Rhwymedigaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth; ac
w) Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Wasanaethau.

17.2 Mae'r Awdurdod yn derbyn cyfannu a chydgysylltu polisïau, strategaethau ac arweiniadau sy'n cynnwys atal troseddu lleol, cynllunio, twristiaeth, cynlluniau cydraddoldeb, strategaethau diwylliannol a chanol trefi a threfniadau economi'r nos. Gweithredwyr yr eiddo sy'n gyfrifol fel arfer am gydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol eraill all fod yn berthnasol, er enghraifft Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

17.3 Mor bell ag y bo modd bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ceisio osgoi ailadrodd cyfundrefnau rheoleiddiol eraill wrth ddelio â'r swyddogaeth drwyddedu. Os yw cyfraith bresennol arall eisoes yn rhoi cyfrifoldebau statudol arbennig ar gyflogwr neu weithredwr eiddo, nid yw'n briodol na chymesur rhoi'r un dyletswyddau neu ddyletswyddau tebyg ar ddeiliad trwydded yr eiddo neu glwb. Unwaith y bydd yn ôl doethineb yr Awdurdod Trwyddedu, dim ond pan fo mesurau ychwanegol ac atodol yn briodol i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu fydd amodau priodol a chymesur yn cael eu hatodi at drwydded.

17.4 Fe all polisïau, strategaethau, cyfrifoldebau a chanllawiau eraill yr Awdurdod Lleol a'r Llywodraeth hefyd gyfeirio at y swyddogaeth drwyddedu, ac fe all yr

Awdurdod Trwyddedu gadw cyswllt â'r awdurdodau perthnasol neu ei gyfarwyddiaethau yn eu cylch. Tra nad yw rhai o'r rhain efallai'n uniongyrchol berthnasol i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu, gallant effeithio'n anuniongyrchol arnynt.

17.5 Er enghraifft, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n cadw cyswllt agos â'r Timau Plismona Cymdogaethau lleol ac yn pwyso a mesur data a ddaw oddi wrth y bwrdd iechyd lleol i nodi tueddiadau er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gallu datblygu strategaethau effeithiol sy'n ystyried materion trosedd ac anhrefn lleol yn llawn.

17.6 Bwriad yr Awdurdod lleol yw y bydd, trwy ei Bwyllgor Trwyddedu, yn cadw golwg ar sut mae'r materion, fel a osodwyd uchod, yn effeithio ar swyddogaethau trwyddedu a swyddogaethau eraill yr Awdurdod, er mwyn iddo allu ceisio cydgysylltu a chyfannu ei swyddogaeth drwyddedu gyda strategaethau perthnasol eraill.

17.7 Dan amgylchiadau priodol, gall yr Awdurdod Lleol ystyried gwneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu am drwyddedau eiddo yn ei enw ei hun ar gyfer ei fannau cyhoeddus ei hun yn y gymuned. Gall hyn gynorthwyo hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol ac adloniadol ehangach.

17.8 O ran strategaethau diwylliannol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu, er enghraifft trwy ymgynghori â swyddogion Gwasanaethau Hamdden a Diwylliant lleol, yn ystyried a yw gofynion trwyddedu lleol yn annog rhag darparu cerddoriaeth fyw a gweithgareddau diwylliannol ac adloniant. Pan fo unrhyw arwydd mai felly y mae pethau, fe all yr Awdurdod Trwyddedu ystyried edrych sut fyddai modd gwyrdroi'r sefyllfa ac fe all, os bydd angen yng ngoleuni ymchwiliadau o'r fath, ystyried adolygu'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu.

**Y Berthynas â'r Broses Gynllunio**

17.10 Fel arfer, dylai ceisiadau am drwyddedau eiddo ar gyfer eiddo masnachol parhaol ddod oddi wrth fusnesau gyda chaniatâd cynllunio ar yr eiddo dan sylw. Fodd bynnag, mae modd gwneud ceisiadau am drwyddedau cyn i unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol gael ei geisio na'i roi gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

17.11 Yr argymhelliad cryf yw bod darpar geiswyr trwyddedau gysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn gwneud cais am drwydded er mwyn cadarnhau, neu ofyn am gyngor ar, unrhyw ganiatâd cynllunio neu unrhyw amodau perthnasol i ddefnyddio'r eiddo. Mae'n amlwg yn gwneud synnwyr gweithredol sicrhau bod cynllunio a thrwyddedu'n gytûn.

17.12 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n dymuno pwysleisio na fyddai'r faith bod y Pwyllgor Trwyddedu wedi caniatáu unrhyw amrywiad o drwydded sy'n golygu newid sylweddol i adeilad yn rhyddhau'r ceisydd o'r angen i wneud cais am ganiatâd cynllunio neu ganiatâd rheoli adeiladu pan fo hynny'n briodol.

17.13 Bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio gwahanu cyfundrefnau cynllunio, rheoli adeiladu a thrwyddedu'n briodol er mwyn osgoi ailadrodd ac aneffeithlonrwydd. Mae'r cyfundrefnau Trwyddedu a Chynllunio'n golygu ystyried materion gwahanol (er cysylltiedig).

17.14 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n osgoi trin ceisiadau trwyddedu fel ailredeg ceisiadau cynllunio ac, fel arfer, ni fydd yn gwneud y canlynol:

- torri ar draws penderfyniadau a wnaed gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol neu'n dilyn penderfyniadau apêl a wnaed gan yr Awdurdod hwnnw; neu
- osod amodau trwyddedu pan osodwyd yr un amodau neu amodau tebyg ar ganiatâd cynllunio.

17.15 Nid yw penderfyniadau a wnaed gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhwymo'r Awdurdod Trwyddedu nac i'r gwrthwyneb.

17.16 Pan bennwyd awr derfynu, fel amod o ganiatâd cynllunio, ar ddefnyddio eiddo at ddibenion masnachol sy'n wahanol i'r oriau trwyddedu, rhaid i'r trwyddedai gadw at yr amser cau cynharaf er mwyn osgoi torri'r caniatâd cynllunio – neu fe all fod yn agored i erlyniad dan gyfraith cynllunio (ac i'r gwrthwyneb pan fo'r oriau trwyddedu'n gorffen yn gynharach na'r caniatâd cynllunio).

## 18. Y Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Wasanaethau

18.1 Cyflwynwyd Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Wasanaethau i ddatblygu marchnad unigol ar gyfer gwasanaethau trwy chwalu rhwystrau i fasnach ar draws ffiniau o fewn yr Undeb Ewropeaidd a'i gwneud yn haws i ddarparwyr gwasanaethau yn yr ardal gwmpas sefydlu busnes neu gynnig eu gwasanaethau i wledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Gyfarwyddeb yn gofyn bod holl rybuddion ac awdurdodiadau yn yr ardal gwmpas yn gallu cael eu cwblhau mewn dull electronig a thrwy "un man cyswllt" sef y Cyfleuster Ceisiadau Electronig yn y DU, rhan o wefan www.gov.uk.

18.2 Er mai dim ond adloniant rheoledig sy'n "wasanaeth" yn ôl diffiniad y Gyfarwyddeb, mae'r Llywodraeth wedi ymestyn proses gwneud cais electronig i holl weithgareddau rheoledig dan y Ddeddf ac i holl awdurdodiadau a rhybuddion ac eithrio ceisiadau am drwyddedau personol, adolygiadau o

drwyddedau a sylwadau o ran ceisiadau am drwyddedau. Mae rhagor o wybodaeth am y broses geisio yng Nghanllawiau'r Swyddfa Gartref dan adran 182 o'r Ddeddf. Dylid nodi bod y Canllawiau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd ac, felly, gall cyfeiriadau at y paragraffau uchod newid drwy gydol bywyd y polisi hwn. Y cyngor i geisywr yw cysylltu â'r Swyddfa Gartref i gael fersiwn diweddaraf y Canllawiau cyn cyflwyno unrhyw gais.

## 19. Trwydded bersonol

19.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod mai ychydig iawn o ddewis sydd ganddo wrth roi trwydded bersonol. Yn gyffredinol, ond bod ceisydd dros 18 oed, gyda chymhwyster cymeradwy a heb gollfarnau troseddol perthnasol, rhaid caniatáu'r cais.

19.2 Os oes gan geisydd gollfarn berthnasol gall yr Heddlu wrthwynebu'r cais. Pan fydd gwrthwynebiad rhaid cynnal gwrandawiad. Caiff ceiswyr gyda chollfarnau troseddol heb ddarfod am droseddau perthnasol yn ôl y Rheoliadau a wnaed dan y Ddeddf eu hannog i drafod eu cais yn gyntaf gyda Swyddog Trwyddedu'r Cyngor a/neu'r Heddlu.

19.3 Mewn gwrandawiad o ran gwrthwynebiad yn erbyn rhoi trwydded bersonol, neu ddiddymu trwydded bresennol, bydd y Cyngor yn ystyried yn ofalus a fydd rhoi, neu barhau, y drwydded yn fuddiol i'r amcan atal troseddu. Bydd yn ystyried difrifoldeb a pherthnasedd unrhyw gollfarn(au), y cyfnod sydd wedi mynd heibio ers y trosedd(au) ac unrhyw amgylchiadau lliniarol. Bydd y Cyngor yn caniatáu'r cais yn unig os yw'n fodlon y bydd gwneud hynny'n hyrwyddo'r amcan hwn.

19.4 Mae atal troseddu'n un o amcanion y Ddeddf ac yn un o gyfrifoldebau'r Cyngor dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Dylai rhywun sy'n dal trwydded bersonol fod yn rhywun sydd nid yn unig â chymwysterau priodol ond rhywun fydd yn cynorthwyo atal troseddu. Gallai rhoi trwydded i rywun â hanes troseddol perthnasol danseilio yn hytrach na hyrwyddo'r amcan atal troseddu.

## 20. Trwydded eiddo

20.1 Caiff trwydded eiddo ei rhoi o ran unrhyw eiddo, heblaw clwb aelodau preifat neu eiddo tebyg, a awdurdodwyd ar gyfer un neu fwy o weithgareddau trwyddedadwy, fel cyflenwi alcohol, lluniaeth hwyrnos neu adloniant rheoledig.

20.2 Mae rhai eithriadau i'r gofyniad i gael trwydded, gan gynnwys dangos ffilmiau

am resymau addysgol neu hyrwyddol, dangos ffilmiau fel rhan o arddangosfa, a cherddoriaeth fyw ac wedi'i recordio trwy chwyddleisydd i gynulleidfaoedd o lai na 500 o bobl rhwng 8.00am ac 11.00pm. Y cyngor i geiswyr yw cysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu i gael rhagor o gyfarwyddyd ynghylch eithriadau eraill.

20.3 Pan fo alcohol yn cael ei gyflenwi, rhaid enwebu Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig, sy'n gorfod bod yn ddeiliad trwydded bersonol, i awdurdodi gwerthu alcohol yn yr eiddo.

20.4 Caiff trwyddedau eiddo eu rhoi i unigolion dros 18 oed sy'n cynnal, neu'n bwriadu cynnal, busnes sy'n golygu defnyddio'r eiddo ar gyfer y gweithgareddau a grybwyllwyd uchod. Yn ogystal, fe all elusennau, cyrff gwasanaeth iechyd, sefydliadau addysgol a phobl o ddisgrifiadau penodol eraill wneud cais am drwydded eiddo.

20.5 Fe all trwydded gael ei rhoi gydag amodau, sy'n rhaid cydymffurfio â nhw bob amser tra bo'r eiddo'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr amseroedd a bennwyd yn y drwydded. Fe all peidio â chydymffurfio â thelerau ac amodau trwydded, neu os yw gweithgareddau trwyddedadwy'n digwydd heb drwydded eiddo, arwain at ddirwy anghyfyngedig, neu gyfnod o garchar hyd at 6 mis, neu'r ddau.

20.6 Seiliwyd ffïoedd am drwyddedau ar werth trethiannol eiddo ac, er bod trwyddedau am gyfnod amhenodol fel arfer, mae ffi flynyddol yn daladwy.

## 21. Tystysgrif eiddo clwb

21.1 Fe all clwb cymwys, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, cymdeithas lesiant neu sefydliad lles glowyr sy'n cyrraedd y meini prawf a bennwyd yn rhan 4 o'r Ddeddf ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy ar gyfer ei aelodau a gwesteion aelodau sy'n cael eu hawdurdodi gan dystysgrif riddo clwb (CPC).

21.2 Mae CPC yn awdurdodi defnyddio eiddo'n unig er lles ei aelodau a'u gwesteion ac nid oes modd ei ddefnyddio i ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy ar gyfer eraill nad ydynt yn aelodau. Os yw'r eiddo i gael ei ddefnyddio i ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy ar gyfer pobl eraill heblaw aelodau bydd gofyn awdurdodiad ychwanegol. Gall hyn fod yn Drwydded Eiddo (PL) neu Rhybudd Digwyddiad Dros Dro (TEN).

21.3 Mae eiddo sy'n gweithredu dan awdurdodiad CPC yn mwynhau breiniau arbennig. Os yw eiddo clwb yn gweithredu dan awdurdodiad trwydded eiddo neu TEN nid yw'r breiniau'n berthnasol. Mae'r breiniau'n cynnwys hawliau

mynediad cyfyngedig, dim gofyn bod rhywun cymwys yn awdurdodi cyflenwi alcohol. Ystyriaethau eraill fyddai rheolau trethiant gwahanol, y dylid gofyn am gyngor CThEM arnynt.

## 22. Rhybuddion digwyddiadau dros dro

22.1 Mae modd defnyddio Rhybuddion Digwyddiadau Dros Dro (TEN) i ganiatáu gweithgareddau trwyddedadwy ar sail unigol neu achlysurol. Dyma'r math mwyaf priodol o awdurdodiad ar gyfer digwyddiadau unigol ar raddfa fechan, fel achlysuron codi arian at gymunedau, ysgolion ac elusennau, gyda'r bwriad o wneud y canlynol:

- gwerthu neu gyflenwi alcohol;
- darparu adloniant rheoledig; neu
- werthu bwyd poeth / diodydd rhwng 11pm a 5am.

22.2 Bydd ymgyngoreion statudol yn cael eu hysbysu o holl TEN er mwyn iddynt allu rhoi cyngor priodol. Dylai ceiswyr fod yn ymwybodol y gall fod dyletswydd ar yr ymgyngoreion hyn, a nifer o gyrff gorfodi eraill, i sicrhau bod y digwyddiad dan sylw'n cyrraedd safonau statudol arbennig. Mewn achosion eithafol, gallai hyn arwain at gyfyngu achlysur neu hyd yn oed ei atal rhag digwydd ac, felly, mae'n bwysig iawn bod ceiswyr yn cysylltu â'r cyrff perthnasol hyn mor fuan ag y bo modd er mwyn trafod eu cynlluniau a phenderfynu pa safonau fydd angen iddynt eu cyrraedd.

22.3 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n argymell bod pawb sydd am gyflwyno TEN, yn enwedig pan fo hyn yn golygu darparu adloniant rheoledig, yn rhoi cymaint o rybudd i'r Awdurdod ag y gallant, er mwyn sicrhau bod modd rhoi cyngor priodol a datrys unrhyw broblemau a ragwelir mewn ffordd drefnus ac amserol. Mae cyfnod o 10 wythnos o leiaf i'w argymell ar gyfer y broses hon, a dylid ystyried cyfnod ymgynghori hwy ar gyfer achlysuron mwy. Tra bo'n gyfreithlon cyflwyno TEN 10 diwrnod gwaith, neu yn achos rhybudd hwyr 5 diwrnod gwaith, cyn yr achlysur, mae cyfnod o 10 wythnos i'w argymell ar gyfer achlysuron mwy.

22.4 Gall yr Awdurdod Trwyddedu hysbysu Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau'r Cyngor o unrhyw TEN sy'n golygu darparu adloniant rheoledig. Mae'r Panel hwn yn tynnu ynghyd yr amrywiol gyrff gorfodi a all fod yn gyfrifol am orfodi cysylltiedig â digwyddiad, ynghyd ag unrhyw geiswyr a threfnyddion eraill, ac mae'n caniatáu dod i gytundeb ynghylch sut fydd yr achlysur yn cael ei drefnu ac ati. Yr argymhelliad yw bod pob ymgeisydd sy'n cyflwyno TEN yn mynd drwy'r Panel Digwyddiadau wrth lunio'u TEN, a bydd y Panel Digwyddiadau o gymorth arbennig i elusennau, grwpiau cymunedol a

gwirfoddol, a threfnyddion achlysuron eraill sydd heb gyngor cyfreithiol neu wybodaeth dechnegol ar gael iddynt.

## 23. Gwerthu a chyflenwi alcohol

23.1 Rhaid i eiddo trwyddedig a awdurdodwyd dan y Ddeddf i werthu a/neu gyflenwi alcohol ystyried ei gyfrifoldebau o ran bwy sy'n cael diodydd alcoholaidd, yn arbennig:

- Gwerthu i bobl dan 18 oed
- Gwerthu i bobl sy'n cyflenwi i bobl dan 18 oed
- Gwerthu i bobl sy'n feddw

23.2 Argymhelliad y Cyngor yw bod gan unrhyw eiddo trwyddedig a awdurdodwyd i werthu neu gyflenwi alcohol bolisi sy'n dangos sut mae'r gwerthu neu gyflenwi'n cael ei reoli a rhaid iddo gynnwys gofynion hyfforddi staff. Dylid cadw cofnodion o holl hyfforddiant a roddwyd ac unrhyw bethau sy'n digwydd, e.e. gwrthod gwerthu a pham.

## 24. Adloniant rheoledig

24.1 Isod mae rhestr o'r mathau o adloniant rheoledig sy'n ofynnol eu trwyddedu dan y Ddeddf:

a) arddangosfeydd ffilmiau
b) perfformio drama
c) chwaraeon dan do
d) adloniant paffio neu ymaflyd
e) gornest, arddangosfa neu arddangosiad sy'n cyfuno paffio neu ymaflyd gydag un neu fwy o grefftau ymladd ("chwaraeon ymladd cyfunol")
f) perfformiadau cerddoriaeth fyw
g) chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio
h) perfformiadau dawns
i) adloniant o ddisgrifiad tebyg i berfformio cerddoriaeth fyw, chwarae unrhyw gerddoriaeth wedi'i recordio neu berfformio dawns.

24.2 Mae eithriadau yn y Ddeddf yn cynnwys y newidiadau hynny a wnaed gan Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012, Deddf Trwyddedu 2003, Gorchymyn Disgrifio Adloniant (Diwygio) 2013, Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Trwyddedu Adloniant) 2014 a Deddf Dadreoleiddio 2015 sy'n dileu gofynion trwyddedu'r canlynol:

1. Arddangosfeydd ffilmiau at ddibenion hysbysebu, hysbysrwydd, addysg ac ati

2. Arddangosfeydd ffilmiau sy'n ffurfio rhan o arddangosiad at unrhyw ddibenion mewn amgueddfa neu oriel gelfyddyd
3. Cerddoriaeth fyw neu wedi'i recordio, sy'n atodol at weithgareddau eraill sydd heb fod angen trwydded
4. Cerddoriaeth fyw ac wedi'i recordio fel a ganlyn:
   i. cerddoriaeth fyw ac wedi'i recordio trwy chwyddleisydd rhwng 8am ac 11pm o flaen cynulleidfaoedd o ddim mwy na 500 o bobl mewn eiddo a awdurdodwyd i werthu alcohol i'w yfed yn yr eiddo;
   ii. cerddoriaeth fyw trwy chwyddleisydd rhwng 8am ac 11pm o flaen cynulleidfaoedd o ddim mwy na 500 o bobl mewn gweithleoedd na thrwyddedwyd fel arall dan y Ddeddf (neu a drwyddedwyd yn unig at ddarparu lluniaeth hwyrnos); a
   iii. Cerddoriaeth fyw heb ei chwyddo rhwng 8am ac 11pm yn holl fannau cyfarfod
5. Defnyddio derbynyddion teledu neu radio ar gyfer derbyn a chwarae rhaglen ar yr un pryd
6. Unrhyw adloniant neu gyfleusterau adloniant mewn man addoliad crefyddol cyhoeddus
7. Adloniant mewn garddwestau neu achlysuron tebyg oni bai fod elfen o elw preifat
8. Dawnsio morys neu unrhyw ddawnsio o natur debyg neu berfformio cerddoriaeth fyw heb ei chwyddo fel rhan o berfformiad o'r fath
9. Adloniant ar gerbydau ffordd ar fynd
10. Perfformio drama o flaen cynulleidfa o 500 o bobl neu lai rhwng 8:00 a 23:00
11. Perfformio dawns o flaen cynulleidfa o 500 o bobl neu lai (oni bai ei fod yn adloniant perthnasol o fewn ystyr paragraff 2A o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 – h.y. ffurfiau penodol ar adloniant rhywiol); rhwng 8:00 a 23:00
12. Chwaraeon dan do o flaen cynulleidfa o 1,000 o bobl neu lai rhwng 8:00 a 23:00
13. Cerddoriaeth fyw ac wedi'i recordio yn eiddo anhrigiannol yr awdurdod lleol, ysbytai, ysgolion, neuaddau eglwys, neuaddau pentref, neuaddau cymunedol neu eiddo cymunedol tebyg arall o flaen cynulleidfa o 500 o bobl neu lai rhwng 8:00 a 23:00
14. Ymaflyd Groegaidd-Rufeinig, neu ymaflyd dull rhydd o flaen cynulleidfa o 1000 o bobl neu lai rhwng 8:00 a 23:00
15. Unrhyw adloniant mewn syrcasau teithiol (ac eithrio ffilmiau ac adloniant paffio neu ymaflyd).

## 25. Cerddoriaeth fyw, dawnsio a theatr

25.1 Yn gyffredinol, mae angen trwydded ar gyfer cerddoriaeth fyw, dawnsio ac adloniant theatrig. Fodd bynnag, mae eithriadau arbennig yn berthnasol i rai o'r mathau hyn o adloniant ar adegau penodol o'r dydd. Er enghraifft, nid oes angen trwydded ar gyfer cerddoriaeth fyw heb ei chwyddo yn unrhyw fan rhwng 8.00am ac 11.00pm, na chwaith ar gyfer cyflwyno drama i gynulleidfaoedd o lai na 500 o bobl rhwng 8.00am ac 11.00pm.

25.2 Mae llawer o eithriadau eraill o ran adloniant rheoledig a'r cyngor i geiswyr yw cael eu cyngor cyfreithiol eu hunain neu gysylltu â'r Tîm Trwyddedu cyn cyflwyno cais am drwydded.

## 26. Gweinyddu

Tîm Trwyddedu'r Cyngor sy'n gweinyddu pob agwedd ar y Ddeddf, gan gynnwys ceisiadau, sylwadau a gofyn am gymorth a chyngor. Ar wefan y Cyngor mae gwybodaeth fanwl am bob un o'r gwasanaethu sydd ar gael i drwyddedeion, ceiswyr, achwynwyr a phob ymholiad arall. Mae modd lawrlwytho ffurflenni cais a gwybodaeth am wneud cais o'n gwefan a chysylltu â'r Tîm Trwyddedu trwy unrhyw un o'r dulliau canlynol:

Tîm Trwyddedu
Cyngor Sir Penfro
Isadran Diogelu'r Cyhoedd
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP
Ffôn: 01437 764551
E-bost: licensing@pembrokeshire.gov.uk
Gwefan: www.pembrokeshire.gov.uk

## 27. Trefnau ceisio

27.1 Caiff holl ofynion a threfnau gwneud cais eu pennu yn y Ddeddf ac mewn Rheoliadau a wnaed dan y Ddeddf. Tîm Trwyddedu'r Cyngor sy'n gweinyddu ceisiadau a rhybuddion.

27.2 Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth a chyfarwyddyd llawn ar holl

geisiadau. Mae modd cysylltu â'r Tîm Trwyddedu i gael cyngor a chyfarwyddyd ar wneud cais, gan gynnwys cyngor cyn gwneud cais. Ni all y Cyngor gynorthwyo gyda llenwi ffurflen gais; os oes angen cymorth dylai ceiswyr gysylltu â chynghorwr proffesiynol, e.e. cyfreithiwr neu ymgynghorydd.

## 28. Amserlen weithredu

28.1 Dylai holl geisiadau newydd ac amrywio ymgorffori 'amserlen weithredu' sy'n amlinellu sut fydd yr eiddo'n cael ei weithredu. Dylai hyn gynnwys manylion sut fydd y ceisydd yn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu ac yn lleihau unrhyw effaith negyddol all fod ar y gymuned leol oherwydd gweithredu'r busnes, gan ddibynnu ar y math o eiddo, y lleoliad a phroffil y cwsmeriaid. Bydd y cynigion sydd yn yr amserlen weithredu'n ffurfio prif gorff yr amodau sydd i'w rhoi ar y drwydded, ynghyd ag unrhyw amodau gorfodol perthnasol, unrhyw amodau a gytunwyd gydag awdurdodau cyfrifol wrth wneud y cais ac unrhyw amodau a bennwyd gan Is-bwyllgor Trwyddedu lle gwnaed sylwadau.

28.2 Wrth gwblhau amserlen weithredu, mae disgwyl i geiswyr ystyried y Datganiad o Bolisi Trwyddedu hwn a dangos gwybodaeth addas am eu hardal leol wrth ddisgrifio'r camau y bwriadant eu cymryd er mwyn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.

28.3 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi cyngor cyffredinol ar lunio amserlenni gweithredu a'r argymhelliad cryf i geiswyr yw trafod eu hamserlenni gweithredu gyda'r Awdurdod Trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol eraill cyn eu cyflwyno.

28.4 Bydd faint o gymhlethdod a manylder sy'n ofynnol yn yr amserlen weithredu'n dibynnu ar natur a defnydd yr eiddo dan sylw. O ran eiddo fel tŷ tafarn lle nad yw adloniant rheoledig yn cael ei ddarparu, efallai mai dim ond dogfen gymharol syml fydd ei hangen. Fodd bynnag, o ran amserlen weithredu gysylltiedig â chais am fan neu ddigwyddiad adloniant sylweddol, y disgwyl yw y bydd materion fel diogelwch y cyhoedd ac atal trosedd ac anhrefn yn cael sylw manwl.

28.5 Rhaid cyflwyno'r amserlen weithredu ar y ffurflen benodedig a chynnwys datganiad o'r canlynol:

- Manylion llawn defnydd arfaethedig yr eiddo a'r gweithgareddau trwyddedadwy sydd i ddigwydd yno;
- Yr amseroedd pan fydd y gweithgareddau trwyddedadwy'n digwydd;
- Unrhyw adegau eraill pan fydd yr eiddo ar agor i'r cyhoedd;
- Pan nad oes angen y drwydded ond am gyfnod cyfyngedig, y cyfnod

hwnnw;

- Pan fo'r gweithgareddau trwyddedadwy'n cynnwys cyflenwi alcohol, enw a chyfeiriad yr unigolyn fydd yn oruchwyliwr penodedig yr eiddo;
- Pa un ai fydd alcohol yn cael ei gyflenwi i'w yfed yn neu allan o'r eiddo neu'r ddau;
- Y camau sy'n cael eu cynnig gan y ceisydd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.

28.6 O ran rhai eiddo ac adeiladau, efallai na fydd unrhyw fesurau'n briodol i hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion trwyddedu, er enghraifft, oherwydd bod deddfwriaeth bresennol arall yn eu cwmpasu'n ddigonol. Fodd bynnag, mae'n bwysig y dylai holl amserlenni gweithredu fod:

- yn fanwl a gorfodadwy;
- yn ddiamwys;
- yn peidio ag ailadrodd darpariaethau statudol eraill;
- yn eglur o ran yr hyn maent yn bwriadu ei gyflawni; ac
- yn briodol, cymesur a chyfiawnadwy.

28.7 I gynorthwyo ceiswyr mae'r Awdurdod wedi darparu cod ymarfer da ar gyfer eiddo trwyddedadwy, sydd i'w gael yn Atodiad A i'r Polisi hwn. Dylid nodi nad yw'r Cod yn ffurfio unrhyw ran o'r Polisi hwn a bod y canllawiau ac enghreifftiau o fesurau rheoli'n cael eu rhoi i gynorthwyo ceiswyr wrth baratoi amserlenni gweithredu a rhedeg eiddo trwyddedadwy'n barhaol. Nid yw'r Cod yn cynnwys popeth ac ni ddylid ystyried mewn unrhyw fodd ei fod yn cynnwys amodau safonol neu ofynion gorfodol.

## 29. Amodau

29.1 Mae'r Ddeddf, fel y diwygiwyd, yn gosod nifer o amodau gorfodol ar drwyddedau. Mae gan y Cyngor y pŵer i osod amodau ychwanegol os yw'n ystyried eu bod yn briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

29.2 Bydd amodau ynghlwm wrth drwyddedau neu dystysgrifau'n cael eu haddasu i arddull a nodweddion unigol yr eiddo, gweithgareddau a/neu ddigwyddiadau arbennig sy'n cael eu darparu yn yr eiddo. Nid yw'r Polisi'n darparu ar gyfer unrhyw amodau safonol, cyffredinol neu hollgynhwysfawr, ac ni fydd yn gosod gofynion anghymesur a beichus.

29.3 Fe all ceiswyr gynnig amodau yn yr amserlen weithredu fel rhan o'u cais; gall y Cyngor ddileu neu aileirio unrhyw un o'r amodau hyn os ydynt yn cael eu

hystyried yn aneglur, amwys neu anorfodadwy, gyda chytundeb y ceisydd. Bydd hyn yn sicrhau bod pawb yn deall yn llwyr eu cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.

29.4 Mae'r Cyngor yn derbyn na all ond gosod amodau pan gaiff sylwadau perthnasol eu derbyn a bod hynny'n cael ei ystyried yn briodol er mwyn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu. Pan fo awdurdod cyfrifol yn rhoi tystiolaeth ei bod yn briodol gosod amodau penodol, bydd y Cyngor yn ystyried y cais ac fe all awgrymu geiriad yr amod er mwyn sicrhau ei fod yn glir, perthnasol a gorfodadwy.

29.5 Wrth osod amodau, bydd y Cyngor hefyd yn ymwybodol o'r angen i osgoi mesurau a allai annog rhag cerddoriaeth fyw, dawnsio neu theatr trwy osod amodau o natur sylweddol, nad ydynt yn gymesur â'r peryglon.

## 30. Ceisiadau pan fo sylwadau'n cael eu derbyn

30.1 Pan fydd cais yn cael ei wneud i roi, amrywio neu adolygu trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb, fe all awdurdodau cyfrifol neu bobl eraill wneud sylwadau ar y cais. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn rhoi mwy o bwysau ar sylwadau pobl sy'n gallu dangos y byddent yn teimlo effaith uniongyrchol cynnal gweithgareddau trwyddedadwy yn yr eiddo dan sylw.

30.2 Rhaid gwneud sylwadau i'r Awdurdod Trwyddedu o fewn y cyfnod statudol o 28 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod ar ôl i'r Awdurdod Trwyddedu dderbyn y cais perthnasol. Rhaid gwneud sylwadau'n ysgrifenedig.

30.3 Mae modd gwneud sylwadau naill ai i gefnogi cais neu i fynegi gwrthwynebiadau i ganiatáu cais. Fodd bynnag, ni all yr Awdurdod Trwyddedu ond derbyn "sylwadau perthnasol". Mae sylw'n "berthnasol" os yw'n ymwneud ag effaith debygol rhoi'r drwydded ar hyrwyddo o leiaf un o'r amcanion trwyddedu.

30.4 Enghraifft o sylwadau na fyddai'n berthnasol fyddai sylwadau pobl fusnes leol ynghylch y niwed masnachol i'w busnesau eu hunain a ddeuai o gystadleuaeth eiddo trwyddedig newydd. Ar y llaw arall, sylwadau perthnasol fyddai sylwadau rhywun mewn busnes y byddai niwsans oherwydd eiddo newydd yn annog cwsmeriaid rhag mynd i'r cylch lleol, a bod y camau a gynigiwyd gan y ceisydd i atal y niwsans hwnnw'n annigonol.

30.5 Mewn geiriau eraill, dylai sylwadau fod yn berthnasol i effaith gweithgareddau

trwyddedadwy mewn eiddo ar yr amcanion trwyddedu.

30.6 Er mwyn i sylwadau mewn cysylltiad ag amrywiadau fod yn berthnasol, dylid eu cyfyngu i'r hyn sydd yn yr amrywiad.

30.7 Tra bo'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i sylwadau fod ar sail tystiolaeth, nid oes unrhyw ofyniad ar awdurdod cyfrifol neu rywun arall i gyflwyno hanes cofnodedig o broblemau mewn eiddo i gefnogi eu sylwadau, ac mae'n cael ei dderbyn na fyddai modd gwneud hyn gydag eiddo newydd mewn gwirionedd.

30.8 Awdurdodau cyfrifol yw grŵp o gyrff cyhoeddus sy'n gorfod cael eu hysbysu'n llawn o geisiadau ac sydd â hawl i gyflwyno sylwadau i'r Awdurdod Trwyddedu mewn cysylltiad â'r cais i roi, amrywio neu adolygu trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb. Mae rhestr lawn o fanylion cysylltu'r awdurdodau cyfrifol ar wefan yr Awdurdod Trwyddedu ac yn Adran 43.

30.9 Tra bo holl awdurdodau cyfrifol yn gallu cyflwyno sylwadau ar geisiadau am drwyddedau a thystysgrifau eiddo clwb a cheisiadau amrywio llawn, cyfrifoldeb pob awdurdod cyfrifol yw penderfynu pryd fydd ganddynt sail briodol i wneud hynny.

30.10 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n derbyn bod pob awdurdod cyfrifol yn gallu cyflwyno sylwadau cysylltiedig ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu. Fodd bynnag byddai'r Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn disgwyl sylwadau ar hyrwyddo amcanion trwyddedu unigol ddod oddi wrth yr awdurdod cyfrifol mwyaf perthnasol sy'n arbenigo yn y maes penodol hwnnw. Er enghraifft byddai'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl sylwadau ar atal trosedd ac anhrefn ddod yn bennaf oddi wrth yr Heddlu a sylwadau ar atal niwsans cyhoeddus ddod yn bennaf oddi wrth iechyd amgylcheddol.

30.11 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n derbyn bod mai'r Heddlu ddylai fod ei brif ffynhonnell cyngor ar faterion perthnasol i hyrwyddo amcan trwyddedu atal trosedd ac anhrefn, ond efallai y gall hefyd wneud sylwadau perthnasol ar yr amcanion trwyddedu eraill os oes ganddynt dystiolaeth i gefnogi sylwadau o'r fath.

30.12 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n derbyn holl sylwadau rhesymol a chymesur gan yr Heddlu oni bai fod ganddo dystiolaeth na fyddai gwneud hynny'n briodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n dal i ddisgwyl bod unrhyw sylwadau a ddaw oddi wrth yr Heddlu ar sail tystiolaeth ac yn gallu gwrthsefyll archwiliad mewn gwrandawiad.

30.13 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n derbyn Gwasanaethau Amddiffyn Plant Cyngor

Sir Penfro fel y corff sy'n gymwys i'w gynghori ar amcan trwyddedu gwarchod plant rhag niwed.

30.14 Er nad yw iechyd y cyhoedd yn amcan trwyddedu, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n derbyn y gall cyrff iechyd ddal gwybodaeth nad oes gan awdurdodau cyfrifol eraill, ond a fyddai'n cynorthwyo'r Awdurdod Trwyddedu wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

30.15 Er enghraifft, gall meddwdod arwain at ddamweiniau ac anafiadau trwy drais, gan beri ymweliadau ag adrannau argyfwng a defnyddio gwasanaethau ambiwlans. Bydd rhai o'r digwyddiadau hyn yn cael eu hysbysu i'r Heddlu, ond ni fydd llawer ohonynt. Gallai gwybodaeth o'r fath fod yn berthnasol i amcan diogelwch y cyhoedd ac, mewn rhai achosion, i amcan trosedd ac anhrefn.

30.16 O ganlyniad i Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd bellach yn awdurdod cyfrifol ac, felly, gall gyflwyno sylwadau os yw'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

30.17 Fodd bynnag, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn gweithredu fel awdurdod cyfrifol ar ran eraill (er enghraifft, trigolion lleol, cynghorwyr lleol neu grwpiau cymunedol) er y gall fod adegau pan fydd yr Awdurdod yn penderfynu gwneud hynny.

30.18 Fe all partïon o'r fath wneud sylwadau perthnasol i'r Awdurdod Trwyddedu eu hunain, ac mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl iddynt gyflwyno sylwadau eu hunain lle maent yn gallu gwneud hynny o fewn rheswm.

30.19 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn disgwyl i awdurdodau cyfrifol eraill ymyrryd pan fo sail yr ymyriad yn dod o fewn cyfrifoldeb yr awdurdod cyfrifol arall hwnnw. Mae gan bob awdurdod cyfrifol statws cyfartal dan y Ddeddf a gall weithredu'n annibynnol heb aros am sylwadau unrhyw awdurdod cyfrifol arall.

30.20 Mewn achosion lle mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn gweithredu fel awdurdod cyfrifol mewn cysylltiad â'r un broses, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n sicrhau gwahanu cyfrifoldebau o fewn yr Awdurdod er mwyn sicrhau tegwch trefniadol a dileu gwrthdaro buddiannau. Caiff hyn ei gyflawni trwy neilltuo'r gwahanol gyfrifoldebau i wahanol swyddogion trwyddedu neu swyddogion eraill o fewn yr Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau gwahaniad cyfrifoldebau priodol.

30.21 Gall unrhyw un arall hefyd wneud sylwadau perthnasol ynghylch ceisiadau, heb ystyried eu sefyllfa ddaearyddol mewn cysylltiad â'r eiddo perthnasol. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn rhoi mwy o bwysau ar

sylwadau sy'n cael eu gwneud gan bobl sy'n gallu dangos y byddent yn teimlo effaith uniongyrchol cynnal gweithgareddau trwyddedadwy yn yr eiddo dan sylw.

30.22 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn gwrthod fel annilys, unrhyw sylwadau gan bobl eraill sy'n cael eu hystyried yn wamal neu blagus neu os nad yw sylw'n cael ei roi i unrhyw un o'r amcanion trwyddedu. Byddai modd hystyried sylwadau'n blagus os yw'n ymddangos mai'r bwriad yw achosi trafferth neu annifyrrwch, boed hynny i gystadleuydd neu rywun arall, heb achos rhesymol. Nodwedd sylwadau gwamal yn y bôn yw diffyg difrifoldeb. Byddai sylwadau gwamal yn ymwneud â materion sydd, ar y gorau, yn ansylweddol ac na fyddai cymryd camau adferol yn eu cylch yn haeddiannol na chymesur.

30.23 Fel arfer, bydd penderfyniadau ynghylch dilysrwydd sylwadau'n cael eu gwneud gan swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu. Mewn achosion ffiniol, bydd mantais yr amheuaeth ynghylch unrhyw agwedd ar sylwadau'n cael ei roi i bwy bynnag sy'n gwneud y sylwadau hynny. Yna byddai'r gwrandawiad dilynol yn rhoi cyfle i'r unigolyn neu gorff sy'n gwneud y sylwadau ymhelaethu arnynt a'u heglurhau.

30.24 Fe all unrhyw rai sy'n teimlo iddynt gael cam trwy wrthod eu sylwadau ar y naill neu'r llall o'r seiliau hyn wneud cwyn trwy drefn gwyno gorfforaethol yr Awdurdod. Gall rhywun hefyd herio penderfyniad o'r fath trwy adolygiad barnwrol.

30.25 Pan fo rhybudd gwrandawiad yn cael ei roi i geisydd, mae gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu roi copïau i'r ceisydd o'r sylwadau perthnasol a wnaed.

30.26 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn rhoi copïau o'r sylwadau perthnasol i'r ceisydd yn llawn a heb eu golygu. Fodd bynnag, dan amgylchiadau eithriadol, pan of pobl yn darbwyllo'r Awdurdod Trwyddedu fod ganddynt resymau gwirioneddol dros ofni bygythiad neu drais os caiff eu manylion personol, fel enw a chyfeiriad, eu datgelu i'r ceisydd, fe all copïau o'r sylwadau gael eu golygu o ganlyniad.

30.27 Dan y fath amgylchiadau bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n dal i roi rhai manylion i'r ceiswyr (fel enw stryd neu leoliad cyffredinol mewn stryd), fel bod y ceiswyr yn gallu paratoi eu hymateb i unrhyw sylwadau arbennig yn llawn.

30.28 Fel arall, gall pobl fod eisiau cysylltu â'r awdurdod cyfrifol perthnasol neu eu cynghorydd lleol gyda manylion sut maent yn ystyried bod yr amcanion trwyddedu'n cael eu tanseilio fel bod yr awdurdod cyfrifol yn gallu cyflwyno sylwadau ar eu rhan os yw hynny'n briodol ac yn cael ei gyfiawnhau.

30.29 Mae rhagor o gyfarwyddyd ar wneud sylwadau i'w gael ar wefan yr Awdurdod Trwyddedu.

## 31. Arfer a dirprwyo swyddogaethau

31.1 Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn gofyn bod awdurdodau lleol yn gweithredu fel yr Awdurdod Trwyddedu ac yn sefydlu Pwyllgor Trwyddedu i fod yn gyfrifol am holl faterion perthnasol i Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae'r Pwyllgor Trwyddedu'n dirprwyo ymhellach i Is-bwyllgorau Trwyddedu (Paneli), neu i un neu fwy o swyddogion yn gweithredu dan awdurdod dirprwyedig.

31.2 Y farn yw y bydd llawer o'r swyddogaethau o natur weinyddol yn bennaf heb feysydd dadleuol amlwg. Er mwyn effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cost bydd y rhain, at ei gilydd, yn cael eu gwneud gan swyddogion.

31.3 Mae'r Rhestr isod yn cyflwyno'r dirprwyo swyddogaethau a phenderfyniadau tybiedig. Ar waethaf y rhagdybiaeth ddirprwyo hon, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gyfeirio unrhyw fater at y Pwyllgor Trwyddedu neu Is-bwyllgor.

31.4 **<u>Rhestr ddirprwyo swyddogaethau a phenderfyniadau trwyddedu</u>**

| Mater i'w drin | Y Pwyllgor Trwyddedu | Is-bwyllgor Trwyddedu (paneli) | Swyddogion |
|---|---|---|---|
| Cais am Drwydded Bersonol | | Os yw'r heddlu'n gwrthwynebu | Os nad oes gwrthwynebiad |
| Cais am Drwydded Bersonol gyda chollfarnau heb ddarfod | | Holl achosion | |
| Cais am Drwydded Eiddo / Tystysgrif Eiddo Clwb | | Os gwnaed sylwadau perthnasol heb eu tynnu'n ôl | Os na wnaed sylwadau perthnasol neu os tynnwyd sylwadau'n ôl |
| Cais am Ddatganiad Darpariaethol | | Os gwnaed sylwadau perthnasol heb eu tynnu'n ôl | Os na wnaed sylwadau perthnasol neu os tynnwyd sylwadau'n ôl |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cais i amrywio Trwydded Eiddo / Tystysgrif Eiddo Clwb | | Os gwnaed sylwadau perthnasol heb eu tynnu'n ôl | Os na wnaed sylwadau perthnasol neu os tynnwyd sylwadau'n ôl |
| Cais i amrywio Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig | | Os yw'r heddlu'n gwrthwynebu | Holl achosion eraill |
| Cais am fân amrywiad | | | Holl achosion |
| Cais i amrywio trwydded ar eiddo cymunedol i gynnwys amod trwydded arall | | Os yw'r heddlu'n gwrthwynebu | Holl achosion eraill |
| Cais i ddileu rhywun fel Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig | | | Holl achosion |
| Cais i drosglwyddo Trwydded Eiddo | | Os yw'r heddlu'n gwrthwynebu | Holl achosion eraill |
| Cais am awdurdodau dros dro | | Os yw'r heddlu'n gwrthwynebu | Holl achosion eraill |
| Cais i adolygu Trwydded Eiddo / Tystysgrif Eiddo Clwb | | Holl achosion | |
| Penderfyniad ynghylch fod cwyn yw amherthnasol, gwamal, plagus ac ati | | | Holl achosion |
| Penderfynu ar wrthwynebiad yr heddlu neu iechyd amgylcheddol i Rybudd Digwyddiad Dros Dro | | Holl achosion os na chânt eu tynnu'n ôl | |
| Atal trwyddedau yn dilyn peidio talu ffïoedd blynyddol | | | Holl achosion |

## 32. Adolygu trwyddedau

32.1 Ni all y Cyngor ond adolygu trwydded pan fo awdurdod cyfrifol, neu rywun

arall, yn honni bod yr amcanion trwyddedu'n cael eu torri. Bydd awdurdodau cyfrifol yn ceisio rhoi rhybudd cynnar i ddeiliaid trwyddedau o unrhyw bryderon a nodwyd yn yr eiddo. Dim ond awdurdodau cyfrifol neu bobl eraill (e.e. trigolion lleol, sefydliadau lleol a chynghorwyr) sy'n gallu gwneud cais i adolygu trwydded; a phenderfynu ei ganlyniad mewn gwrandawiad lle bydd y sail dystiolaethol i honiadau a wnaed yn cael ei chyflwyno. Mae'n edrych yn ddifrifol arbennig ar geisiadau i adolygu unrhyw drwydded eiddo sy'n golygu:

- defnyddio eiddo trwyddedig i werthu a dosbarthu cyffuriau rheoledig a gwyngalchu derbyniadau troseddau cyffuriau;
- defnyddio eiddo trwyddedig i werthu a dosbarthu gynnau anghyfreithlon;
- osgoi hawlfraint o ran ffilmiau a cherddoriaeth anghyfreithlon;
- prynu ac yfed alcohol dan oed;
- defnyddio eiddo trwyddedig ar gyfer puteindra neu werthu pornograffi anghyfreithlon;
- defnyddio eiddo trwyddedig ar gyfer gamblo anghyfreithlon;
- defnyddio eiddo trwyddedig fel canolfan gweithgaredd troseddol wedi'i drefnu;
- defnyddio eiddo trwyddedig i drefnu camdriniaeth neu ymosodiadau hiliol, homoffobig neu rywiol;
- defnyddio eiddo trwyddedig i werthu tybaco neu nwyddau smygledig;
- defnyddio eiddo trwyddedig i gadw neu werthu nwyddau wedi'i dwyn;
- yr Heddlu'n cael eu galw'n aml i roi sylw i ddigwyddiadau anhrefn;
- enghreifftiau o niwsans cyhoeddus hir a/neu fynych;
- perygl difrifol i ddiogelwch y cyhoedd wedi cael ei nodi a'r rheolwyr yn methu neu'n amharod eu cywiro;
- perygl difrifol i blant.

32.2 Bydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu'n ystyried holl dystiolaeth a roddwyd yn y gwrandawiad ac yn rhoi pwysau priodol ar y dystiolaeth honno wrth wneud ei benderfyniad.

32.3 Bydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu'n ystyried pob un o'r cosbau sydd ar gael iddo yn y Ddeddf a'r canllawiau, gan gynnwys gwneud dim os yw hynny'n briodol.

## 33. Polisi effaith gronnol

33.1 Diffiniwyd effaith gronnol yn y canllawiau fel "yr effaith all croniad sylweddol o eiddo trwyddedig mewn un ardal ei chael ar hyrwyddo amcanion trwyddedu". Mae effaith gronnol eiddo trwyddedig ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu'n fater priodol i awdurdod trwyddedu ei ystyried wrth ddatblygu ei ddatganiad polisi

trwyddedu.

33.2 Gall effaith gronnol nifer, math a thrwch eiddo mewn ardaloedd arbennig, fel canol trefi, beri iddynt ddod yn orlawn o fath arbennig o eiddo gan eu gwneud yn ganolbwynt grwpiau mawr o bobl sydd, gyda'i gilydd, yn arwain at broblemau niwsans cyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol neu gronig. Gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried mabwysiadu **polisi effaith gronnol** o wrthod awdurdodi eiddo newydd mewn ardal neu ardaloedd penodol os yw'n fodlon ei bod yn briodol ac angenrheidiol cynnwys agwedd at effaith gronnol yn ei Ddatganiad Polisi Trwyddedu. Bydd yn gwneud y penderfyniad yn unig ar ôl ei ddarbwyllo bod tystiolaeth i gefnogi penderfyniad o'r fath.

33.3 Effaith mabwysiadu polisi effaith gronnol o'r math hwn yw creu rhagdybiaeth amodol, os bydd sylwadau perthnasol i'r perwyl hwnnw'n cael eu derbyn, y bydd ceisiadau i awdurdodi eiddo newydd neu dystysgrifau eiddo clwb neu amrywiadau sylweddol yn cael eu gwrthod fel arfer, oni bai fod modd dangos na fydd gweithrediad yr eiddo dan sylw'n ychwanegu at yr effaith gronnol sy'n cael ei theimlo eisoes. Bydd yr hyn sy'n ffurfio amrywiad sylweddol yn dibynnu ar y polisi sy'n bodoli a'r rhesymau dros ddynodi'r ardal yn addas ar gyfer mabwysiadu polisi arbennig.

33.4 Byddai angen i geiswyr roi sylw i'r materion polisi effaith gronnol yn eu hamserlenni gweithredu er mwyn gwrthbrofi rhagdybiaeth o'r fath. Bydd unrhyw bolisi effaith gronnol yn pwysleisio nad yw'r rhagdybiaeth yn rhyddhau awdurdodau cyfrifol neu rai â diddordeb o'r angen i wneud sylwadau perthnasol cyn i'r Awdurdod Lleol allu ystyried yn gyfreithlon rhoi mewn grym ei bolisi effaith gronnol.

33.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n derbyn bod llawer o wahanol fathau ac arddulliau eiddo'n gwerthu alcohol, yn gweini bwyd ac yn darparu adloniant. Mae'n derbyn y bydd rhai ceisiadau mewn ardaloedd effaith gronnol yn annhebygol o ychwanegu'n sylweddol at y problemau sy'n deillio o orlenwi. Lle gall wneud penderfyniadau'n gyfreithlon ynghylch ceisiadau mewn ardaloedd effaith gronnol, bydd yn ystyried yn llawn yr effaith y gall gwahanol eiddo ei chael ar y gymuned leol.

33.6 Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ganiatáu unrhyw gais mewn ardal polisi effaith gronnol yn unig ar amodau sy'n cyd-fynd â'r amserlen weithredu a gyflwynodd y ceisydd os na chaiff unrhyw sylw perthnasol.

33.7 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n adolygu polisïau effaith gronnol yn rheolaidd i asesu a oes eu hangen bellach neu a oes angen eu hymestyn.

33.8 Nid yw diffyg polisi effaith orlenwi / gronnol arbennig yn atal unrhyw awdurdod cyfrifol neu bobl eraill rhag gwneud sylwadau perthnasol ar sail tystiolaeth ar gais newydd am awdurdodiad ar y sail y bydd yr eiddo'n creu effaith gronnol negyddol ar un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

33.9 Wedi ystyried y canllawiau y cyfeiriwyd atynt uchod, ymgynghori ar y mater, ystyried sylwadau atebwyr ac ystyried y dystiolaeth, mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu polisi effaith gronnol o ran yr ardaloedd sy'n canoli ar Sgwâr Tudur, Dinbych-y-pysgod a Sgwâr y Castell, Hwlffordd.

33.10 <u>Rhesymau dros y Polisi</u>

Cyflwynodd Heddlu Dyfed-Powys dystiolaeth i gefnogi eu cais bod Canol Trefi Hwlffordd a Dinbych-y-pysgod yn cael eu dynodi'n ardaloedd effaith gronnol. Maent yn aros yn orlawn gyda chrynhoad sylweddol o fannau hwyrnos sy'n dibynnu ar alcohol, a lle mae nifer mawr o ymosodiadau a throsedd ac anhrefn cysylltiedig arall gan gynnwys niwsans cyhoeddus a pherygl i ddiogelwch y cyhoedd. Bydd y polisi'n berthnasol i geisiadau pellach am drwyddedau newydd neu amrywiadau arwyddocaol i drwyddedau presennol o ran eiddo sy'n bennaf yn gwerthu alcohol i'w yfed yn yr eiddo, defnyddiau hwyrnos eraill, tai bwyta a siopau prydau parod. Mae prif ganolbwynt y polisi'n debygol o fod ar sefydliadau ac eiddo sy'n dibynnu ar alcohol gan gadw cwsmeriaid yn y cylch ar adegau pan fo hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ar ei anoddaf; er enghraifft lluniaeth hwyrnos o siopau "bwyd brys".

33.11 Ni ddylid deall bod mabwysiadu polisïau o'r fath yn rhwystr diamod i awdurdodiadau newydd neu amrywiadau arwyddocaol i drwyddedau presennol. Mae gan geiswyr hawl i ofyn am unrhyw ganiatâd sydd ar gael iddynt yn y Ddeddf ac nid yw'r Cyngor, yn y polisi hwn, yn bwriadu atal ceiswyr rhag arfer eu hawliau statudol. Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun, o fewn cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth ac ystyriaeth briodol i'r canllawiau a pholisi perthnasol.

33.12 Y bwriad yw defnyddio'r polisïau effaith gronnol hyn yn llym. Yn gyffredinol, bydd ceisiadau a fyddai'n ceisio cael eu caniatáu fel eithriad i bolisi effaith gronnol arbennig yn cael eu hystyried yn foddhaol os mai'r farn yw y byddent yn hybu mwy o amrywiaeth o fathau o adloniant nag sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y cylchoedd hyn; yn arbennig, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n croesawu'r cynigion hynny sy'n cael eu cyfrif yn fwy ystyriol o'r teulu ac sy'n cynnig dewis ehangach

o adloniant na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd oherwydd mai'r farn yw na fydd cynigion o'r fath yn ychwanegu at y pwysau yn y cylch a thanseilio'r amcanion trwyddedu.

33.13 Fodd bynnag, ni fydd materion fel:

- ni fydd yr eiddo'n ychwanegu pobl at y cylch;
- bydd oriau hwy'n creu gwasgariad arafach;
- hanes rheoli da;
- mae'r eiddo'n cael ei redeg yn dda;
- mae'r eiddo'n fach;
- nid yw alcohol yn cael ei werthu;
- mae'r cwsmeriaid radd yn uwch na'r arferol;

yn cael eu hystyried yn amgylchiadau eithriadol, oherwydd mai'r mater dan sylw yw trosedd ac anhrefn / niwsans cyhoeddus yn yr ardal gyfan yn hytrach na'r hyn sy'n gysylltiedig ag eiddo unigol a hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

33.14 Mae gofyn i drwyddedeion presennol sydd eisiau newid a/neu ymestyn yn sylweddol yr eiddo y mae'r awdurdodiad yn berthnasol iddo wneud cais am awdurdodiad newydd. Mae hyn oherwydd bod y Ddeddf yn gwahardd defnyddio cais amrywio i wneud newid sylweddol i'r eiddo y mae'r awdurdodiad yn berthnasol iddo. Pan fo'r unig newid yw maint adeileddol neu gynllun yr eiddo ei hun (h.y. yn niffyg nodweddion eraill fel newid yn y dull gweithredu, cynhwysedd ac ati) mae'n annhebygol iawn y byddai hyn yn ennyn y polisi arbennig ond, wrth gwrs, ni all y polisi hwn gyfyngu ar hawl unrhyw awdurdod cyfrifol neu rywun arall i wneud sylwadau perthnasol i'r perwyl hwnnw ac, os bydd rhai, byddant yn cael eu hystyried yn ddiwyd. Pan fo newid arall yn cael ei ragweld, yna gall y rhagdybiaeth godi. Dan y fath amgylchiadau mae gan geiswyr hawl i ofyn am ddatganiad darpariaethol.

33.15 Mae'r rhanbarthau daearyddol ar gyfer y polisi effaith gronnol yn Ninbych-y-pysgod a Hwlffordd ynghlwm fel Atodiad B.

## 34. Gorchmynion cyfyngu ben bore

34.1 Tra bo'r Ddeddf wedi cyflwyno cynllun cyfannol unigol ar gyfer trwyddedu eiddo sy'n cael ei ddefnyddio i werthu neu gyflenwi alcohol, adloniant rheoledig a lluniaeth hwyrnos, un o'i brif ddibenion fu mynd i'r afael â phroblemau cysylltiedig â chamddefnyddio alcohol.

34.2 Erbyn hyn derbyniwyd gan y llywodraeth, trwy ganllawiau statudol, nad oedd ymestyn oriau o angenrheidrwydd yn ateb i holl broblemau. O ganlyniad, rhoddwyd mwy o ddewis i awdurdodau trwyddedu yn eu hagwedd at reoli eiddo trwyddedig yn eu hardaloedd. Ar 31ain Hydref 2012 gweithredwyd newidiadau i Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, sy'n caniatáu i awdurdodau trwyddedu fabwysiadu mesurau newydd ar gyfer rheoli eu heconomïau nos.

34.3 Un o'r mesurau hyn yw Gorchymyn Cyfyngiad Ben Bore (EMRO), sy'n caniatáu i awdurdodau lleol edrych ar gyfyngu ar werthu alcohol ar adeg benodol rhwng hanner nos a 6:00am.

34.4 Bwriad EMRO yw delio â throsedd ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a niwsans cyhoeddus difrifol, nad yw'n cael ei briodoli'n uniongyrchol i eiddo trwyddedig. Caiff awdurdodau eu hannog i edrych ar y berthynas rhwng unrhyw ardal effaith gronnol bresennol, os oes un yn bodoli, ac ardal EMRO arfaethedig.

34.5 Mae EMRO yn cyfyngu'r cyfnod ar gyfer cyflenwi alcohol. Mae modd gwahardd cyflenwi alcohol rhwng 00:00 a 06:00 ac mae'n berthnasol i Drwyddedau Eiddo, Tystysgrifau Eiddo Clwb a Rhybuddion Digwyddiadau Dros Dro. Nid oes unrhyw eithriadau oddieithr ar gyfer yr eiddo hynny sy'n awdurdodi cyflenwi alcohol i drigolion gyda llety dros nos trwy finibars a gwasanaeth ystafell.

34.6 Fe all EMRO fod yn berthnasol i gylch penodol neu hyd yn oed un stryd – nid yw'n gorfod bod dros y Sir gyfan. Gall fod yn berthnasol i ddiwrnodau penodol o'r wythnos, gall bennu gwahanol amseroedd ar wahanol ddiwrnodau o'r wythnos, a gall fod yn berthnasol i gyfnodau cyfyngedig o'r flwyddyn neu am gyfnod digyfyngiad. Ni all fod yn berthnasol ar Nos Galan / Dydd Calan.

34.7 Nid yw EMRO yn effeithio ar oriau awdurdodedig adloniant rheoledig neu luniaeth hwyrnos.

34.8 Mae mabwysiadu EMRO yn ddibynnol ar broses sy'n golygu casglu a dadansoddi tystiolaeth berthnasol a gwaith ymgynghori gyda'r cyhoedd a deiliaid trwyddedau a/neu dystysgrifau eiddo clwb. Penderfyniad y Cyngor yw gwneud EMRO ar gyfer ardal.

34.9 Rhaid adolygu EMRO yn gyfnodol i sicrhau eu bod yn aros yn briodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac mae modd eu hamrywio neu ddiddymu drwy'r un broses â'u mabwysiadu.

34.10 Caiff cyflenwi alcohol yn ystod yr amser pan fo EMRO mewn grym ei drin fel trosedd Adran 136 dan y Ddeddf (gweithgaredd trwyddedadwy diawdurdod).

34.11 Ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor EMRO er, pe bai'n cael ei ystyried yn angenrheidiol, bydd ymgynghori llawn cyn mabwysiadu'r ddarpariaeth.

## 35. Gwrandawiadau

35.1 Bydd ceisiadau am drwyddedau a thystysgrifau'n cael eu penderfynu ar ôl ymgynghori ag awdurdodau cyfrifol perthnasol. Pan nad oes unrhyw sylwadau, bydd y Tîm Trwyddedu'n eu cyhoeddi'n weinyddol. Fodd bynnag, rhaid cyfeirio ceisiadau dadleuol at Is-bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor i'w penderfynu, oni bai fod pawb yn cytuno nad oes angen gwrandawiad.

35.2 Mae cyfnod rhybuddio gwrandawiad sy'n rhaid ei roi i bawb perthnasol, a'r wybodaeth all gael ei datgelu, yn amrywio gan ddibynnu ar y math o gais, yn amodol ar reoliadau. Bydd Is-bwyllgor Trwyddedu o dri Aelod Etholedig yn penderfynu cais dadleuol a bydd un ai'n rhoi trwydded, yn rhoi trwydded gyda newidiadau neu'n gwrthod y cais. Gall y naill ochr neu'r llall wneud apêl i Lys Ynadon yn erbyn penderfyniad y Cyngor.

35.3 Ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod trwydded, gall unrhyw awdurdod cyfrifol neu rywun arall ofyn am adolygiad o drwydded neu dystysgrif. Yr Is-bwyllgor Trwyddedu fydd yn penderfynu holl geisiadau am adolygiad.

## 36. Apeliadau

36.1 Mae hawliau'r rhai a gafodd gam i apelio yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor yn cael eu cyflwyno yn Atodlen 5 i'r Ddeddf. Heblaw yn achos trwyddedau personol, rhaid gwneud apêl i'r Llys Ynadon lleol. Yn achos trwyddedau personol, rhaid gwneud yr apêl i'r Llys Ynadon ar gyfer yr ardal berthnasol i'r Awdurdod Trwyddedu sydd wedi ystyried y cais (neu unrhyw ran ohono).

36.2 Rhaid ennyn apêl trwy roi rhybudd o'r apêl gan yr apelydd i'r canlynol:

Clerc yr Ynadon
Llys Ynadon Hwlffordd
Hawthorn Rise
Hwlffordd
Sir Benfro

SA61 2AZ

cyn pen 21 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod pryd yr hysbyswyd yr apelydd gan y Cyngor o'r penderfyniad yr apelir yn ei erbyn.

36.3 Wrth benderfynu apêl, gall y Llys wneud y canlynol:

- gwrthod yr apêl;
- cynnig unrhyw benderfyniad arall a allai'r Cyngor fod wedi'i wneud; neu
- anfon yr achos yn ôl i'r Cyngor i'w drin yn unol â chyfarwyddyd y Llys.

Gall y llys wneud y fath orchymyn ar gostau ag yr ystyria'n briodol.

36.4 Pan fo hynny'n briodol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi gwybodaeth ynghylch eu hawliau i apelio i geiswyr a gwrthwynebwyr ac ati.

## 37. Gweithredu penderfyniad y Llys Ynadon

37.1 Cyn gynted ag y bydd penderfyniad y Llysoedd Ynadon yn hysbys, ni fydd y Cyngor yn oedi cyn ei weithredu a chaiff camau angenrheidiol eu cymryd ar unwaith oni bai y gorchmynnwyd gan lys uwch i atal camau o'r fath [er enghraifft, o ganlyniad i Adolygiad Barnwrol cyfredol]. Nid yw'r Ddeddf yn darparu ar gyfer unrhyw apêl eto yn erbyn penderfyniad y Llysoedd Ynadon.

## 38. Gorfodi

38.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gorfodi ar y cyd â Heddlu Dyfed Powys. Bydd hyn yn darparu ar gyfer targedu eiddo problemus a risg uchel y cytunwyd arno, ond gyda chyffyrddiad ysgafnach ar eiddo risg isel, sy'n amlwg yn cael ei redeg yn dda.

38.2 Bwriad yr Awdurdod Trwyddedu yw gwneud ymweliadau gorfodi ag eiddo trwyddedig fel y bo'n briodol, er mwyn sicrhau bod unrhyw amodau a bennwyd fel rhan o'r drwydded yn cael eu cadw. Gall yr ymweliadau hyn fod naill ai'n archwiliadau rhagweithiol yn ôl rhaglen ar sail risg yr eiddo, hanes peidio â chydymffurfio ac ati, neu ymweliadau adweithiol o ganlyniad i gwynion.

38.3 Yn gyffredinol, dim ond yn unol ag egwyddorion gorfodi cytûn ac yn unol â pholisi gorfodi'r Cyngor ei hun fydd camau'n cael eu cymryd. I'r perwyl hwn

bydd egwyddorion allweddol cysondeb, eglurder a chymesuredd yn cael eu cynnal.

## 39. Ffïoedd yn Gyffredinol

39.1 Ar hyn o bryd, caiff holl ffïoedd eu pennu trwy statud ac mae'r Cyngor yn gorfod codi'r ffïoedd a fanylir yn y Rheoliadau Ffïoedd.

39.2 Mae darpariaethau yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 i roi'r gallu i Gynghorau bennu eu ffïoedd yn lleol. Fodd bynnag, ni ddaeth yr adrannau perthnasol i rym ar hyn o bryd. Pan ddeuant i rym, bydd Cynghorau'n cyfrifo ffïoedd i adennill costau'r gwasanaeth ac yna'n ymgynghori ar eu gweithredu cyn gofyn i'r Pwyllgor Trwyddedu gymeradwyo unrhyw newidiadau.

## 40. Ffïoedd Blynyddol am Drwyddedau Eiddo a Thystysgrifau Eiddo Clwb

40.1 Mae'r Ddeddf a'r Rheoliadau a wnaed dan y Ddeddf yn nodi gofynion ffïoedd blynyddol ac mae'n pennu bod y ffi'n cael ei thalu ar y dyddiad penodedig sef ar ben blwydd rhoi'r drwydded wreiddiol bob blwyddyn. Ar hyn o bryd mae Rheoliadau'n pennu'r ffi; fodd bynnag, bydd newidiadau dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, pan ddaw i rym, yn rhoi gallu i'r Cyngor bennu ffïoedd yn lleol i adennill costau cysylltiedig â gweinyddu a chydymffurfiad â'r Ddeddf.

## 41. Atal trwydded am beidio â thalu'r ffi flynyddol

41.1 Mae newidiadau a wnaed i'r Ddeddf gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn rhoi'r gallu i Gynghorau atal trwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb os nad yw'r ffi flynyddol sy'n ofynnol yn y rheoliadau'n cael ei thalu.

41.2 Bydd y Cyngor yn atal unrhyw drwydded neu dystysgrif os nad yw'r ffi ofynnol yn cael ei thalu erbyn y 'dyddiad penodedig', sef ar ben blwydd dyddiad caniatáu'r drwydded gyntaf bob blwyddyn. Bydd y Cyngor yn dilyn y drefn isod.

41.3 Os bydd y Cyngor yn cael ei hysbysu / yn darganfod na thalwyd ffi flynyddol, bydd yn rhybuddio deiliad y drwydded / dystysgrif, yn ysgrifenedig, o'r canlynol:

- y bydd y drwydded / dystysgrif yn cael ei hatal ymhen 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad;
- na fydd yr ataliad yn digwydd os caiff y ffi ei thalu cyn y dyddiad atal;
- os caiff camgymeriad gweinyddol ei honni, fe all y dyddiad atal fod 21 diwrnod o'r dyddiad penodedig; neu'r dyddiad atal ar y rhybudd 14 diwrnod, pa un bynnag sydd olaf;
- bydd goruchwyliwr / rheolwr penodedig yr eiddo hefyd yn cael copi o'r rhybudd os nad yw'n ddeiliad trwydded yr eiddo.

41.4 Os na chaiff y ffi ei thalu erbyn y dyddiad penodedig ar y rhybudd bydd y drwydded / dystysgrif yn cael ei hystyried wedi'i hatal. Bydd deiliad y drwydded / dystysgrif a DPS / Rheolwr yn cael eu hysbysu ar unwaith fod yr ataliad yn dod i rym, gan ddweud na all yr eiddo gynnig unrhyw weithgareddau trwyddedadwy cyn i'r ffi gael ei thalu a chodi'r ataliad. Pan gaiff y taliad llawn ei wneud bydd y Cyngor yn codi'r ataliad ar unwaith, ac yn cadarnhau hyn yn ysgrifenedig.

41.5 Pan fo trwydded / tystysgrif yn cael ei hatal a gweithgareddau trwyddedadwy'n cael eu darparu, bydd y Cyngor yn ystyried erlyn y darparwr am droseddau dan adran 136 o'r Ddeddf.

## 42. Ardollau hwyrnos

42.1 Pŵer dewisol yw Ardoll Hwyrnos (LNL), a gyflwynwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, sy'n caniatáu i Awdurdodau Trwyddedu (ALI) godi cyfraniad tuag at gostau plismona economi'r nos (NTE) trwy godi ardoll ar ddeiliaid trwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb a awdurdodwyd i werthu alcohol. Rhaid i LNL fod yn berthnasol i'r fwrdeistref gyfan ac mae'n berthnasol hefyd i holl siopau trwyddedau mewnol ac allanol. Nid yw TEN yn cael eu cynnwys.

42.2 Byddai LNL yn gofyn bod ardoll yn cael ei thalu gan y bobl hynny a awdurdodwyd i werthu alcohol yn ystod y cyfnod a bennwyd yn y LNL (y 'cyfnod cyflenwi hwyrnos') heb ystyried a ydynt ar agor yn ystod y cyfnod hwnnw mewn gwirionedd. Ni all hyn fod yn gynharach na 00:00 nac yn hwyrach na 06:00, a rhaid i'r cyfnod fod yr un fath bob dydd.

42.3 Rhaid talu o leiaf 70% o'r LNL i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ac nid oes unrhyw gyfyngiadau ar sut fydd rhan yr Heddlu'n cael ei defnyddio. Mae modd defnyddio rhan yr Awdurdod Lleol i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol ac i gynorthwyo rheoli'r NTE yn unol â: lleihau trosedd ac anhrefn; hyrwyddo diogelwch y cyhoedd; atal niwsans cyhoeddus; a

glanhau strydoedd.

42.4 Mae gweithredu LNL yn destun ymgynghori â'r cyhoedd ac, os oes bwriad ei gyflwyno, rhaid ei fabwysiadu yn un o gyfarfodydd y Cyngor.

42.5 Fe all er Awdurdod Trwyddedu dynnu costau paratoi, gweinyddu a rhoi cyhoeddusrwydd i'r ardoll (yn amodol ar reoliadau) cyn talu cyfran yr Heddlu; fodd bynnag rhaid cyhoeddi amcangyfrif o'r costau hyn ar y wefan.

42.6 Cyn gweithredu, dylai Awdurdodau Trwyddedu ystyried y risg ariannol all fod (e.e. llai o dderbyniadau na'r disgwyl – rhaid talu rhan yr Heddlu heb ystyried a gasglwyd yr ardoll yn llawn).

42.7 Gall deiliaid awdurdodiadau sy'n teimlo effaith yr ardoll wneud cais amrywio di-dâl fel y gallant osgoi cael eu heffeithio gan yr ardoll. Dylai'r Awdurdod Trwyddedu ganiatáu 2 fis o leiaf ar gyfer gwneud ceisiadau o'r fath.

42.8 Bydd yr ardoll yn berthnasol yn ddiderfyn; fodd bynnag, rhaid ei hadolygu ar gyfnodau rheolaidd ac fe all ddarfod ar ddiwedd blwyddyn ardoll.

42.9 Ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor wedi mabwysiadu ardoll er, os yw'n cael ei hystyried yn angenrheidiol, bydd ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal cyn mabwysiadu'r ddarpariaeth.

## 43. Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am y Ddeddf a Pholisi Trwyddedu'r Cyngor i'w chael oddi wrth:

Y Tîm Trwyddedu
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP
Ffôn: 01437 764551
Ffacs: 01437 775260
E-bost: licensing@pembrokeshire.gov.uk
Gwefan: www.pembrokeshire.gov.uk

**Awdurdodau Cyfrifol**

Prif Swyddog yr Heddlu
Heddlu Dyfed Powys
Pencadlys Rhanbarthol yr Heddlu
Merlins Hill
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1PT

Tîm Trwyddedu
Isadran Diogelu'r Cyhoedd
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP

Y Comander Sirol
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Pencadlys Rhanbarthol
Merlins Hill
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1PG

Y Cydgysylltydd Amddiffyn Plant
Cyfarwyddiaeth Tai a Gofal Cymdeithasol
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Dref
Aberdaugleddau
Sir Benfro
SA73 3JW

**Yr Awdurdod cynllunio perthnasol;**

**naill ai**

Swyddog Rheoli Datblygiad
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llannion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

**neu**

Pennaeth Cynllunio
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP

Rheolwr Safonau Masnachu
Isadran Diogelu'r Cyhoedd
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP.

Rheolwr Rheoli Llygredd
Isadran Diogelu'r Cyhoedd
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP

Rhaid i geiswyr sy'n dymuno defnyddio cychod ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy hefyd anfon copïau o'r cais i:

Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau
Gorsewood Drive
Hakin
Aberdaugleddau
Sir Benfro
SA73 3HB

Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Swyddfeydd Corfforaethol
Adeilad Ystwyth
Parc Dewi Sant
Caerfyrddin
SA31 3BB

**Yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch perthnasol; naill ai**

Rheolwr Bwyd, Diogelwch ac Iechyd Porthladdoedd
Isadran Diogelu'r Cyhoedd
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP

**neu**

O ran eiddo dan orfodaeth HSE ac ym meddiant y cyngor yn unig:
Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Rhan 1, Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5SH

## Atodiad A -

# Cod Ymarfer Da ar gyfer Eiddo Trwyddedig

**Cyflwyniad**

Mae Deddf Trwyddedu 2003 (y Ddeddf) yn canolbwyntio ar hyrwyddo pedwar amcan trwyddedu statudol sy’n rhaid rhoi sylw iddynt wrth ymgymryd â swyddogaethau trwyddedu. Y pedwar amcan trwyddedu yw:

- **Atal trosedd ac anhrefn**
- **Diogelwch y cyhoedd**
- **Atal niwsans cyhoeddus**
- **Gwarchod plant rhag niwed**

**Nod y cod**

Nod y cod hwn yw rhoi canllawiau arferion da i geiswyr a thrwyddedeion er hyrwyddo’r pedwar amcan trwyddedu sy’n ystyriaethau pennaf bob amser. Mae’r cod yn cyd-fynd â chanllawiau’r Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd dan adran 182 y Ddeddf a datganiad polisi trwyddedu’r Cyngor. Mae’n amlinellu’r hyn mae’r awdurdod trwyddedu a’i bartneriaid sy’n awdurdodau cyfrifol yn ei ddisgwyl yn ymarferol gan geiswyr wrth iddynt gwblhau eu hamserlenni gweithredu a thrwyddedeion wrth iddynt weithredu eu heiddo yn ôl telerau trwydded eiddo. Mae disgwyl i geiswyr a thrwyddedeion wneud ymrwymiad rhagweithiol i atal problemau rhag digwydd mewn eiddo trwyddedig trwy fabwysiadu’r cod hwn.

**Risgiau cysylltiedig ag eiddo trwyddedig**

Gall risgiau cysylltiedig ag eiddo trwyddedig amrywio gan ddibynnu ar fath a nodweddion yr eiddo; y cynllun, gosodiad a’r amgylchedd cyffredinol; y lleoliad; y polisïau sy’n bodoli; a’r achlysuron sy’n cael eu cynnal yno.

Mae’r cod hwn yn nodi llawer o’r risgiau all fod yn gysylltiedig â gwerthu alcohol a darparu adloniant neu luniaeth hwyrnos ac mae’n cyflwyno mesurau arferion da i liniaru’r risgiau hynny. Mae’n darparu peirianwaith allweddol er hyrwyddo’r amcanion trwyddedu, ar gyfer eiddo sy’n cael ei redeg yn dda ac agwedd gyfrifol at ddarparu alcohol, adloniant a lluniaeth hwyrnos.

Mae’n cael ei dderbyn na fydd pob risg yn berthnasol i bob eiddo ac mae’n annhebygol y bydd angen i unrhyw un eiddo roi sylw i’r holl fesurau. Yn wir, efallai na fydd angen i

sawl eiddo gyflwyno mwy nag un neu ddau fesur neu, mewn llawer achos, bydd nifer o arferion da'n bodoli yn yr eiddo eisoes fel ag i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.

Ni all y cod ragweld pob risg, problem neu amgylchiad all ddeillio o eiddo trwyddedig. Nid yw'r cod chwaith yn cyfyngu ar geisydd neu ddeiliad trwydded rhag hyrwyddo'r amcanion trwyddedu trwy ddulliau eraill.

## Sut fydd y cod yn cael ei ddefnyddio?

### Ceiswyr a thrwyddedeion

Agwedd allweddol ar reoli da mewn eiddo trwyddedig yw bod yn rhagweithiol ac ataliol. Felly, mae'r awdurdod trwyddedu'n disgwyl i geiswyr ystyried y cod hwn wrth gwblhau eu hamserlen weithredu. Mae'r awdurdod trwyddedu'n disgwyl i drwyddedeion fod yn ymwybodol o'r cod hwn wrth ystyried mesurau gweithredol ychwanegol.

### Yr awdurdod trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol

Nid yw'r cod yn ddogfen statudol ond bydd yn cael ei ystyried a'i ddefnyddio gan yr awdurdod trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol fel a ganlyn:

- wrth gynnig cyngor i geiswyr naill ai yn y cyfnod dylunio a chynllunio neu yn ystod trafodaethau cyn gwneud cais;
- wrth ymateb i geisiadau am drwyddedau pan na chafodd yr amcanion trwyddedu ddigon o sylw yn yr amserlen weithredu;
- fel man cychwyn delio ag eiddo trwyddedig sy'n cael problemau, i godi safonau er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn yr eiddo hwnnw ac osgoi problemau ychwanegol; ac
- ar gyfer adolygu trwyddedau pan fo tystiolaeth nad yw trwyddedeion wedi hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

### Delio ag eiddo problemus

Bydd problemau neu bryderon ynghylch eiddo trwyddedig yn cael eu canfod a'u nodi yn gynnar a bydd cyngor yn cael ei gynnig i drwyddedeion gyda'r nod o wella safonau yn eu heiddo ac atal neu leihau problemau dilynol gymaint â phosibl.

Lle nodwyd problemau, bydd yr awdurdod trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol yn cytuno mesurau priodol o'r cod gyda deiliad y drwydded i'w gweithredu yn yr eiddo, weithiau'n cael ei alw'n "gynllun gweithredu". Nod y cod yw osgoi'r angen am gamau gorfodi fel

erlyniad neu adolygiad ond ni fydd yn disodli camau gorfodi pan fo hynny'n angenrheidiol.

**Cyffredinol – pob un o'r pedwar amcan trwyddedu**

Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau i arferion da er hyrwyddo pob un o'r pedwar amcan trwyddedu'n gyffredinol mewn eiddo trwyddedig. Y bwriad yw cynorthwyo'r rhai sy'n gwneud cais am drwyddedau newydd neu amrywiadau i drwyddedau presennol wrth iddynt gwblhau eu hamserlenni gweithredu. Cafodd ei llunio hefyd i lywio trwyddedeion ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu'n gyffredinol ar ôl cael trwydded.

Mae gan drwyddedeion a'u staff gyfrifoldeb dros reoli eu heiddo'n effeithiol a diogel a hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu. Hyfforddiant yw'r allwedd i roi'r wybodaeth a sgiliau i ddeiliaid trwyddedau, rheolwyr eiddo a staff allu rheoli a delio â risgiau cysylltiedig ag eiddo trwyddedig. Dylid rhoi hyfforddiant i holl staff a dylai fod ynghylch atal a rheoli problemau sy'n digwydd mewn eiddo. Dylid diweddaru hyfforddiant yn rheolaidd.

| **Risg** | **Mesur Arferion Da** |
|---|---|
| Diffyg gwybodaeth neu ddealltwriaeth o Ddeddf Trwyddedu 2003 | Bydd **staff a hyfforddwyd yn dda**'n cyfrannu at eiddo sy'n cael ei redeg yn dda a bydd ganddynt agwedd gyfrifol at werthu alcohol, darparu adloniant a lluniaeth hwyrnos.<br><br>Cymwysterau ffurfiol i staff, naill ai i safon Trwydded Bersonol neu i safon briodol arall sy'n cael ei chydnabod gan gyrff fel y Sefydliad Tafarnwyr Prydeinig (BII) fyddai'r gorau.<br><br>Dylid cynghori holl staff yn ysgrifenedig ynghylch cyfraith trwyddedu cyn iddynt gael gweini alcohol.<br><br>Dylid rhoi hyfforddiant hefyd ar bolisïau penodol i eiddo cysylltiedig â rhedeg y busnes.<br><br>Dylid cyfarwyddo staff ar yr amodau trwyddedu ynghlwm wrth drwydded eiddo a deall telerau'r drwydded yn llwyr.<br><br>Dylid cadw cofnod o'r dyddiad ac enw bwy bynnag a hyfforddwyd neu a gynghorwyd a gweld ei fod ar gael i'w archwilio gan yr heddlu neu'r awdurdod trwyddedu. |

**Atal trosedd ac anhrefn**

Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau i arferion da o ran atal trosedd ac anhrefn mewn eiddo trwyddedig. Y bwriad yw cynorthwyo'r rhai sy'n gwneud cais am drwyddedau newydd neu amrywiadau i drwyddedau presennol wrth iddynt gwblhau eu hamserlenni gweithredu. Cafodd ei llunio hefyd i lywio trwyddedeion ar atal a rheoli trosedd ac anhrefn yn eu heiddo ar ôl cael trwydded.

Daw prif achosion trosedd ac anhrefn mewn eiddo trwyddedig o ddarpariaethau diogelu annigonol, chynllun a gosodiad gwael, y math o achlysur sy'n cael ei hyrwyddo, gorlenwi a chwsmeriaid meddw neu dan ddylanwad cyffuriau. Gall hyn arwain at ladrad, gwrthdaro, trais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yr argymhelliad, felly, yw bod ceiswyr a thrwyddedeion yn cymryd agwedd ragweithiol at atal a rheoli trosedd ac anhrefn yn eu heiddo.

Dylai holl geisiadau am drwyddedau newydd ac amrywiadau roi sylw i'r camau sy'n cael eu cynnig i atal trosedd ac anhrefn a'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy asesiad risg eiddo. Mae alcohol yn gallu bod yn elfen gyfrannol sylweddol at faint o drosedd ac anhrefn sydd mewn ardal. Gall rheoli da ac arferion da, ynghyd â rheolaethau ffisegol digonol, wneud gwahaniaeth pwysig i drosedd perthynol i alcohol mewn eiddo. Dylid adlewyrchu mesurau o'r fath yn yr amserlen weithredu.

O ran eiddo newydd neu ailwampio eiddo presennol, dylid cynnwys mesurau ataliol yn ystod y cyfnod cynllunio a dylunio. Dylid ystyried cynllun a threfn yr eiddo i leihau posibilrwydd trosedd ac anhrefn. Mae gwybodaeth ddefnyddiol i'w chael mewn dogfennau fel 'Diogelu Drwy Ddylunio'.

Dylai deiliaid trwyddedau fod â pholisïau a gweithdrefnau clir yn dogfennu holl risgiau trosedd ac anhrefn cysylltiedig â'u heiddo a'r mesurau sy'n cael eu gweithredu i atal, rheoli ac ymateb i'r risgiau hynny.

| Risg | Mesur arferion da |
|---|---|
| **Diogelwch yn yr eiddo ac o'i gwmpas** | Dylai fod larymau ar ddrysau dianc pan fo'r eiddo ar agor i'r cyhoedd fel bod staff yn cael eu hysbysu ar unwaith o agor diawdurdod neu ymyrryd.<br><br>Dylid gosod **TCC** oddi mewn ac oddi allan i'r eiddo. Dylai'r camerâu gwmpasu ardaloedd mewnol sy'n agored i'r cyhoedd ac ardaloedd yn union oddi allan i'r eiddo. Rhaid i'r gosodiadau dyddiad ac amser ar y system fod yn gywir. Dylai'r recordiau fod ar y pryd ac ar yriant caled gyda'r gallu i gopïo disgiau ar gyfer asiantaethau eraill fel yr heddlu. Dylid cadw recordiau am gyfnod lleiaf o 28 diwrnod. Dylid hyfforddi staff i gynnal a gweithredu |

| | |
|---|---|
| | systemau o’r fath gan gadw cofnod o’r dyddiad, ac enw bwy bynnag a hyfforddwyd. Dylai recordiau fod ar gael i’w harchwilio gan yr heddlu neu’r awdurdod trwyddedu. Dylai aelod hyfforddedig o’r staff fod ar ddyletswydd i weithredu’r system pryd bynnag y bo’r eiddo ar agor.<br><br>Mae **goleuo allanol** yn ffordd amlwg o atal trosedd. Dylid gofalu nid yw goleuo’n effeithio ar gymdogion.<br><br>Dylid cyflogi **porthorion a/neu stiwardiaid** yn yr eiddo i oruchwylio mynediad a chwsmeriaid oddi mewn i’r eiddo.<br><br>Rhaid trwyddedu unrhyw un sydd â swyddogaeth porthor gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelu (SIA) a rhaid gwisgo bathodynnau SIA yn amlwg wrth weithio.<br><br>Dylai porthorion fod yn hawdd eu hadnabod trwy wisgo lifrai, siacedi tra amlwg neu fandiau braich.<br><br>Dylai porthorion lofnodi cofrestr yn manylu eu rhif trwydded SIA llawn, eu henw, manylion cysylltu ac amser a dyddiad dechrau a darfod eu dyletswydd.<br><br>Dylai stiwardiaid a staff eraill yn yr eiddo fod yn hawdd eu hadnabod hefyd. Rhaid peidio â defnyddio stiwardiaid fel porthorion.<br><br>Trwy **gyfarwyddo a gwrando adroddiadau staff bob dydd** bydd trwyddedeion yn gallu gwella arferion gwaith yn eu heiddo.<br><br>Gall cyfarwyddo fod yn anffurfiol ond dylid cofnodi unrhyw broblemau a nodwyd a chamau adfer a gymrwyd a chadw’r cofnodion yn y brif swyddfa. |
| **Trosedd gan gynnwys gwrthdaro, trais neu ymddygiad ymosodol yn yr eiddo ac o’i gwmpas** | Bydd **rheoli’r drws yn briodol** yn dibynnu ar fath a maint yr eiddo. Dylid penderfynu ar nifer y porthorion drwy asesiad risg gan ystyried maint yr eiddo a’r math o dorf sy’n debygol o gael ei denu gan yr adloniant ond, fan leiaf, ar gymhareb o 1 porthor i bob 100 o gwsmeriaid.<br><br>Dylid ystyried darpariaeth ddigonol o borthorion gwryw a benyw, ond dylid defnyddio o leiaf un porthor fenyw. |

| | |
|---|---|
| | Dylid rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r **polisi mynediad wrth y drws** gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau oedran, safonau gwisg disgwyliedig neu sgrinio bagiau llaw ar unrhyw ddeunydd hysbysebu neu wefan a'i arddangos yn amlwg wrth fynedfa'r eiddo.<br><br>**Taflu allan neu wrthod mynediad i bobl** i'r eiddo os nad ydynt yn cyrraedd eich safonau mynediad neu ei bod yn hysbys eu bod yn dreisiol neu ymosodol. Mewn achosion o'r fath, dylid gwneud cofnod mewn coflyfr digwyddiadau.<br><br>Dylid mabwysiadu **polisi i reoli llawnder** er mwyn atal gorlenwi a chwsmeriaid efallai'n dod yn ymosodol trwy wthio damweiniol.<br><br>Dylid ystyried gweithredu'n fwriadol islaw llawnder i roi elfen o gysur i'r cwsmeriaid ac osgoi gwrthdaro, trais neu ymddygiad ymosodol yn yr eiddo.<br><br>Dylid ystyried **dewisiadau yn lle llestri yfed gwydr** er mwyn atal rhag defnyddio gwydrach fel arf ymosodol, yn enwedig yn ystod achlysuron hyrwyddol neu ddigwyddiadau chwaraeon.<br><br>Os nad yw gwahanol ddewisiadau'n cael eu defnyddio, dylai fod polisi cadarn ar gasglu gwydrau. Dylai hyn gynnwys casglu gwydrau'n rheolaidd gan staff a rhwystro mynd â gwydrach o'r eiddo.<br><br>Dylid **hyfforddi staff** i reoli gwrthdaro er mwyn rhoi'r wybodaeth a hyder iddynt ddelio â sefyllfaoedd anodd a lleihau trosedd ac anhrefn yn yr eiddo. Dylai hyfforddiant hefyd gwmpasu trin, cofnodi a hysbysu digwyddiadau.<br><br>Dylid cadw cofnodion o'r dyddiad, ac enw bwy bynnag a hyfforddwyd. Dylai cofnodion fod ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'n awdurdod trwyddedu.<br><br>**Rhannu gwybodaeth** gydag eraill yn y diwydiant. Bydd cyfarfodydd rheolaidd, defnyddio rhwydweithiau radio lleol neu aelodaeth o gynllun gwarchod tafarnau / clybiau lleol yn galluogi trosglwyddo gwybodaeth ynghylch achoswyr trafferth a phroblemau cyffredin yn y cylch. |

| | |
|---|---|
| **Dod â chyffuriau ac arfau i'r eiddo** | Dylid mabwysiadu **polisi dim goddefgarwch** ar ddefnyddio cyffuriau a chludo arfau yn yr eiddo gyda neges glir "dim chwilio dim mynediad".<br><br>Mae modd arddangos posteri ymhob rhan o'r eiddo i atgoffa cwsmeriaid o'r polisi dim goddefgarwch, yn enwedig yng nghyffiniau toiledau'r eiddo.<br><br>Bydd **polisïau chwilio effeithiol** yn lleihau'r cyfle i ddod â chyffuriau ac arfau i mewn i eiddo trwyddedig gan arwain at atafaelu cyffuriau ac arfau os bydd pobl yn ceisio.<br><br>Dylid llunio polisïau chwilio ar ôl ymgynghori â Heddlu Dyfed Powys; ar hyn o bryd mae'r heddlu wedi llunio polisi o'r fath.<br><br>Dylid gwneud chwiliadau mewn mannau cyhoeddus bob amser a than olwg TCC.<br><br>Rhaid hyfforddi holl staff ynghylch polisïau chwilio gan gadw cofnod o'r dyddiad, ac enw bwy bynnag a hyfforddwyd. Dylai cofnodion fod ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'n awdurdod trwyddedu.<br><br>**Galw'r heddlu** os caiff cwsmeriaid eu hamau o fod â chyffuriau neu arfau yn eu meddiant. Rhaid i holl staff gael gwybod am y gofyniad hwn.<br><br>**Atafaelu, cadw a dogfennu** unrhyw gyffuriau neu arfau sy'n cael eu darganfod, gyda thrywydd archwilio clir a phroses ar gyfer eu hildio i'r Heddlu. Ar hyn o bryd mae gan Heddlu Dyfed Powys drefn ysgrifenedig.<br><br>Fe all **goruchwylio cyffiniau toiledau** fod yn ffordd effeithiol o annog rhag gwerthu neu ddefnyddio cyffuriau. Gall gofalwr toiledau fod yn briodol ar gyfer achlysuron hyrwyddol neu ar adegau prysur fel nos Wener a nos Sadwrn.<br><br>Dylai staff diogelu wirio'r toiledau bob 30 i 60 munud fwy neu lai a dylid cofnodi hyn.<br><br>Mae tynnu arwynebau gwastad o doiledau'n gallu lleihau tebygolrwydd camddefnyddio cyffuriau. |

| | |
|---|---|
| | Dylid rhoi **hyfforddiant ymwybyddiaeth o gyffuriau** i holl staff. Dylid cadw cofnod o'r dyddiad, ac enw bwy bynnag a hyfforddwyd. Dylai cofnodion fod ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'n awdurdod trwyddedu. |
| **Anhrefn ymhlith cwsmeriaid yn ciwio i ddod i mewn i'r eiddo neu wrth ymadael** | **Lleihau posibilrwydd gormod o gynffon** gyda pholisi effeithlon ac wedi'i reoli'n dda wrth y drws. Gall amserau ciwio hir beri bod pobl yn mynd yn aflonydd neu ymosodol. Felly, dylai chwiliadau fod mor gyflym ac effeithiol ag y bo modd.<br><br>Fe all **polisi gwasgaru cwsmeriaid** leihau posibilrwydd anhrefn yn eu plith wrth iddynt adael yr eiddo. Dylai polisi nodi'n eglur y mesurau i osgoi ymadawiad torfol ar ddiwedd y noswaith fel newid graddol yn arddull y gerddoriaeth a chynyddu'r golau.<br><br>Dylai digon o staff fod ar gael ar ddiwedd y noswaith i reoli cau'r eiddo'n drefnus a chadw trefn wrth i gwsmeriaid adael.<br><br>Dylid **hyfforddi staff** i atal anhrefn er mwyn rhoi'r wybodaeth a hyder iddynt ddelio â sefyllfaoedd anodd. Dylid cadw cofnodion o'r dyddiad, ac enw bwy bynnag a hyfforddwyd. Dylai cofnodion fod ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'n awdurdod trwyddedu. |
| **Cwsmeriaid yn meddwi a thrin cwsmeriaid meddw** | Dylai **hyrwyddiadau diodydd** fod yn gymdeithasol gyfrifol a pheidio ag annog yfed gormodol. Dylai fod polisi wedi'i ddogfennu ar hyrwyddiadau diodydd cyfrifol yn yr eiddo a dylai gadw at godau'r diwydiant fel y rhai sy'n cael eu hargymell gan Gymdeithas Cwrw a Thafarnau Prydain (BBPA) a Grŵp Portman. Mae hyn yn ychwanegol at gadw at yr amod trwyddedu gorfodol o ran cynigion arbennig anghyfrifol.<br><br>Dylid **hyfforddi staff** ynghylch effeithiau alcohol a sut i sylwi ar arwyddion cynnar o gwsmeriaid yn meddwi er mwyn rhoi'r wybodaeth a hyder iddynt ddelio â chwsmeriaid meddw.<br><br>Dylai staff fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a gallu adnabod pwyntiau priodol 'digon yw digon' wrth weini cwsmeriaid meddw, fel ag i leihau tebygolrwydd paffio neu ymddygiad ymosodol.<br><br>Dylai fod **polisi dyletswydd gofal** o ran pobl sy'n dioddef er |

| | |
|---|---|
| | gwaeth o effeithiau yfed yn yr eiddo. Dylai'r polisi fynegi'n eglur y bydd staff yn gwneud pob ymdrech i atal cwsmeriaid rhag dirywio i'r fath gyflwr meddw afreoledig. Rhaid cyfarwyddo holl staff ar y polisi.<br><br>Mae modd arddangos **posteri Ymwybodol o Yfed** yn yr eiddo i atgoffa cwsmeriaid o gynnwys unedau diodydd alcoholaidd a therfynau diogel yfed alcohol. |

**Diogelwch y Cyhoedd**

Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau i arferion da ar gyfer hyrwyddo diogelwch y cyhoedd mewn eiddo trwyddedig. Y bwriad yw cynorthwyo'r rhai sy'n gwneud cais am drwyddedau newydd neu amrywiadau i drwyddedau presennol wrth iddynt gwblhau eu hamserlenni gweithredu. Cafodd ei llunio hefyd i lywio trwyddedeion ar hyrwyddo a rheoli diogelwch y cyhoedd yn eu heiddo ar ôl cael trwydded.

Gall cynnal gweithgareddau trwyddedadwy, yn arbennig darparu alcohol a rhai mathau o adloniant, gynyddu peryglon i ddiogelwch y cyhoedd (gan gynnwys perfformwyr) sy'n mynychu eiddo trwyddedig. Yr argymhelliad, felly, yw bod ceiswyr a thrwyddedeion yn cymryd agwedd ragweithiol at warchod a rheoli diogelwch y cyhoedd yn eu heiddo.

Dylai holl geisiadau am drwyddedau newydd ac amrywiadau roi sylw i'r camau sy'n cael eu cynnig i hyrwyddo diogelwch y cyhoedd a'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy asesiad risg eiddo.

O ran eiddo newydd neu ailwampio eiddo presennol, dylid cynnwys mesurau ataliol yn ystod y cyfnod cynllunio a dylunio. Dylid ystyried cynllun a thref yr eiddo i gyrraedd y safon uchaf bosibl o ddiogelwch.

Dylai deiliaid trwyddedau fod â pholisïau a threfnau sy'n dogfennu'n glir ble mae holl risgiau i ddiogelwch y cyhoedd cysylltiedig â'u heiddo a mesurau a weithredwyd i atal, rheoli ac ymateb i'r risgiau hynny.

| Risg | Mesur arferion da |
|---|---|
| **Diogelwch cyffredinol staff a chwsmeriaid** | Dylid cynnal **asesiad risg llawn** gan ystyried diogelwch y cyhoedd yn yr eiddo er mwyn nodi peryglon all wynebu staff neu gwsmeriaid a chyflwyno rhagofalon i reoli'r peryglon.<br><br>Mae templedi i'w cael ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac ar wefan Cymunedau a Llywodraeth Leol. Dylid |

| | |
|---|---|
| | adolygu asesiad risg yn rheolaidd, bob 12 mis fan bellaf. Dylai holl staff fod yn ymwybodol o'r asesiad risg a'r rhagofalon ynddo. Dylid cadw copi o'r asesiad risg yn yr eiddo a gweld ei fod ar gael i'w archwilio.<br><br>Dylai fod **cymhwyster cydnabyddedig mewn cymorth cyntaf** gan o leiaf un aelod o staff a ddylai fod ar ddyletswydd pryd bynnag y bydd trwydded yr eiddo'n cael ei defnyddio.<br><br>Dylai **ystafell cymorth cyntaf** neu ystafell dawel fod ar gael i bawb sydd angen sylw meddygol.<br><br>Dylid rheoli **tymheredd** a lleithder mannau cyfarfod er mwyn cysur a diogelwch cwsmeriaid. Gall amgylchedd sy'n rhy boeth neu'n rhy oer wneud cwsmeriaid yn bigog. Mewn mannau cyfarfod mwy, lle mae pobl yn dawnsio, mae modd defnyddio tymheru i sicrhau nad yw pobl yn gorboethi. |
| **Gorlenwi** | Dylid mabwysiadu **polisi rheoli llawnder** i atal gorlenwi a gorlenwi lleol.<br>Gall fod yn briodol defnyddio systemau cyfrif electronig, clicwyr, gwerthiant tocynnau neu gyfrif pennau.<br>Dylid ystyried gweithredu'n fwriadol islaw llawnder i roi elfen o gysur i'r cwsmeriaid. |
| **Cronni a chael gwared ar wydrau / llestri yfed** | Dylai **polisi casglu gwydrau** gynnwys darpariaethau ar gyfer casglu gwydrau'n rheolaidd gan staff ac atal rhag cymryd gwydrach i ardaloedd allanol. Ni ddylid caniatáu i wydrach gronni neu achosi rhwystr.<br><br>Dylid archwilio terfynau allanol yr eiddo am unrhyw wydrau neu boteli. Rhaid i holl staff gael gwybod am y polisi casglu gwydrau a'u cyfrifoldeb dros y gwaith.<br><br>Dylid glanhau **gollyngiadau a gwydrau wedi torri** ar unwaith er mwyn atal lloriau rhag dod yn llithrig a pheryglus.<br><br>Caiff **llestri plastig neu bolycarbonad** eu cymeradwyo pan fo dawnsio. |
| **Defnyddio cyffuriau neu gryfhau** | Dylid mabwysiadu **polisi dim goddefgarwch** ar ddefnyddio cyffuriau yn yr eiddo. |

| | |
|---|---|
| **diodydd** | Mae modd arddangos posteri ymhob rhan o'r eiddo i atgoffa cwsmeriaid o'r polisi dim goddefgarwch.<br><br>**Gwrthod mynediad** i bawb sy'n dangos arwyddion defnyddio cyffuriau a chysylltu â'r gwasanaethau brys dan amgylchiadau priodol. Mewn achosion o'r fath, dylid gwneud cofnod mewn coflyfr digwyddiadau.<br><br>Dylai fod **polisi dyletswydd gofal** o ran pobl sy'n dioddef er gwaeth o effeithiau cyffuriau yn bodoli yn yr eiddo. Dylai'r polisi gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth o gyffuriau ar gyfer holl staff fel eu bod yn gallu adnabod effeithiau cyffuriau rheoledig a rhoi sylw meddygol lle bo angen. Rhaid cyfarwyddo holl staff ar y polisi. Dylid cadw cofnod o'r dyddiad, ac enw bwy bynnag a hyfforddwyd.<br><br>**Atal posibilrwydd cryfhau diodydd** trwy gynnig amrywiol gynhyrchion atal cryfhau diodydd i gwsmeriaid.<br><br>Os yw cwsmeriaid yn amau y cryfhawyd eu diod, dylech ei hysbysu i'r heddlu ar unwaith. Dylai fod proses eglur ar gyfer hyn yn y polisi dyletswydd gofal. |
| **Diogelwch cwsmeriaid wrth iddynt adael yr eiddo** | Dylid darparu **ardal 'ddistewi'** a ddylai fod yn oerach a distawach na gweddill yr eiddo.<br><br>Fe all **Ystafell Cymorth Cyntaf** fod ar gael hefyd.<br><br>Fe all **cyfnod 'distewi' neu ddirwyn i ben ar ddiwedd noswaith** ganiatáu gwasgariad araf o'r eiddo a chyfle i'r porthorion gadw golwg ar unigolion problemus, atal dadlau dros dacsis neu ymgynnull ger siopau bwyd parod a gwrthdrawiadau gyda grwpiau o fannau cyfarfod eraill.<br><br>Fe all darparu bwyd a diodydd di-alcohol yn ystod cyfnod distewi fod yn effeithiol wrth roi cyfle i gwsmeriaid sobr cyn gadael yr eiddo.<br><br>Dylid ystyried **mwy o olau** oddi mewn i'r eiddo tua diwedd y noswaith i effeithio ar effröwch cwsmeriaid cyn iddynt adael yr eiddo.<br><br>Bydd **mwy o olau allanol**, yn enwedig mewn meysydd parcio dan |

| | |
|---|---|
| | reolaeth uniongyrchol deiliad y drwydded, yn creu diogelwch ychwanegol i gwsmeriaid wrth iddynt adael yr eiddo.<br><br>Dylid gofalu nad yw goleuo'n effeithio ar gymdogion, yn enwedig mewn cylchoedd preswyl sefydledig ac yn agos atynt. |

**Atal niwsans cyhoeddus**

Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau i arferion da ar gyfer atal a rheoli niwsans cyhoeddus o eiddo trwyddedig. Y bwriad yw cynorthwyo'r rhai sy'n gwneud cais am drwyddedau newydd neu amrywiadau i drwyddedau presennol wrth gwblhau eu hamserlenni gweithredu. Cafodd ei llunio hefyd i lywio trwyddedeion ar atal a rheoli sŵn a materion niwsans cyhoeddus eraill o'u heiddo ac adeiladau ar ôl cael trwydded.

Mae sŵn gormodol a niwsans o eiddo trwyddedig o bryder mawr i bobl sy'n byw neu'n gweithio yn y cylch. Yr argymhelliad, felly, yw bod ceiswyr a thrwyddedeion yn cymryd agwedd ragweithiol at atal a rheoli niwsans cyhoeddus rhag deillio o'u heiddo.

Dylai holl geisiadau am drwyddedau newydd ac amrywiadau roi sylw i'r camau a gynigiwyd i atal niwsans cyhoeddus. Pan fo adloniant neu weithgaredd arall a allai fod yn swnllyd yn cael ei drefnu, dylid gwneud asesiad sŵn. O ran rhai mathau o eiddo, bydd angen i ymgynghorydd gyda chymwysterau priodol wneud yr asesiad.

Ar gyfer eiddo newydd neu ailwampio eiddo presennol, dylid cynnwys mesurau ataliol yn ystod y cyfnod cynllunio a dylunio. Dylid ystyried adeiledd a threfn yr eiddo a'r offer yn fewnol ac allanol, er mwyn sicrhau bod yr eiddo'n addas i'r diben. Gall mesurau gwanhau sain gynnwys leinin waliau, llenni acwstig a thriniaeth acwstig i systemau awyru mecanyddol neu dymheru. Hefyd dylid ystyried problemau sŵn hanesyddol yn yr eiddo a chael mesurau i atal rhag eu hailadrodd.

Dylai deiliaid trwyddedau fod â pholisïau a gweithdrefnau clir yn dogfennu holl risgiau niwsans cyhoeddus cysylltiedig â'u heiddo a'r mesurau sy'n cael eu gweithredu i atal, rheoli ac ymateb i'r risgiau hynny. Dylai deiliaid trwyddedau hefyd gysylltu'n rheolaidd â thrigolion a busnesau lleol i sicrhau eu bod yn gymdogion da a delio â phroblemau wrth iddynt ddigwydd.

| **Risg** | **Mesur arferion da** |
|---|---|
| Sŵn adloniant a chwsmeriaid | Dylai fod **polisi rheoli sŵn** yn bodoli sy'n nodi mesurau gwanhau sain er mwyn atal neu reoli sŵn cerddoriaeth, canu a siarad rhag dianc o'r eiddo.<br><br>Dylid seilio'r polisi ar ganfyddiadau asesiad ymgynghorydd |

| | |
|---|---|
| | acwstig.<br><br>Dylid hyfforddi holl staff ar gynnwys y polisi er mwyn sicrhau ymrwymiad i reoli sŵn yn dda. Dylid cadw cofnod o'r dyddiad, ac enw bwy bynnag a hyfforddwyd a gweld ei fod ar gael i'w archwilio gan yr awdurdod trwyddedu neu awdurdod cyfrifol iechyd amgylcheddol.<br><br>Dylai DJs, hyrwyddwyr digwyddiadau neu ddarparwyr adloniant arall fod yn ymwybodol o'r polisi cyn unrhyw berfformiad.<br><br>**Dylid cadw ffenestri a drysau ar gau** tra bo trwydded yr eiddo'n cael ei defnyddio i atal sŵn rhag dianc. Dylid awyru trwy ddull mecanyddol. Dylid ynysu ffenestri rhag sain. Dylai drysau dianc fod yn ddrysau acwstig seliedig. Dylai fod cyntedd i fynedfa ac allanfa'r eiddo. Dylai drysau gau eu hunain.<br><br>Dylai ymgynghorydd acwstig ddarparu, gosod a selio **dyfais cyfyngu sain** ar lefel gymeradwy. Dylid defnyddio'r ddyfais cyfyngu sain bob tro y bydd adloniant rheoledig perthnasol yn digwydd, gan gynnwys holl achlysuron sy'n cael eu hyrwyddo'n allanol. Ni ddylai neb ond deiliad trwydded yr eiddo neu ddirprwy enwebedig a'r goruchwyliwr eiddo penodedig gael mynediad at y ddyfais cyfyngu sain.<br><br>Dylid **lleoli cyfleusterau adloniant** fel bwth y DJ, y llwyfan ac uchel seinyddion oddi wrth ddrysau a ffenestri. Mae defnyddio mowntiau seinyddion rwber i leihau sŵn drwy adeiledd.<br><br>Dylid cynnwys **dulliau mesur sŵn** mewn polisi sŵn. Gallai dulliau redeg o archwiliadau syml o'r terfyn allanol a phrofion gwrando gan ddeiliad y drwydded / staff i fesuriadau manwl gan ymgynghorydd cymwysedig yn defnyddio offer mesur sain.<br><br>Dylid mynd ati i fesur sŵn yn rheolaidd ac, yn arbennig, pan fydd ffurf newydd ar adloniant yn cael ei gyflwyno yn yr eiddo, pan gaiff newidiadau eu gwneud i'r eiddo neu os caiff cwyn ei gwneud yn uniongyrchol yn yr eiddo.<br><br>Dylid cadw **coflyfr** o unrhyw fesuriadau sŵn sy'n cael eu gwneud, y canfyddiadau ac unrhyw gamau adfer a gymrwyd. Dylai'r cofnod ddangos a oeddent yn fesuriadau sŵn rheolaidd neu o ganlyniad i gŵyn. |

| | |
|---|---|
| Sŵn mewn ardaloedd allanol fel gerddi cwrw neu fannau smygu | Dylai'r coflyfr fod ar gael i'w archwilio gan yr awdurdod trwyddedu neu awdurdod cyfrifol iechyd amgylcheddol.<br><br>Dylai **rhif ffôn cysylltu** fod ar gael i drigolion a busnesau lleol y gallant ei ddefnyddio i hysbysu aflonyddwch sŵn i unigolyn cyfrifol yn yr eiddo pan fydd yn digwydd. Dylai'r llinell ffôn fod ar gael bob amser y bydd y drwydded yn cael ei defnyddio.<br><br>**Lleihau posibilrwydd ciwio gormodol** gyda pholisi wedi'i reoli'n dda ac effeithlon wrth y drws.<br><br>Dylid osgoi ciwio'n hir a dylid cyfeirio unrhyw gynffonnau oddi wrth eiddo preswyl.<br><br>Dylai porthorion reoli cynffonnau'n weithredol, yn enwedig yn hwyrach fin nos, i leihau sŵn i'r eithaf. Ni ddylid goddef ymddygiad swnllyd pobl sy'n ciwio i gael mynediad. Dylai porthorion wrthod mynediad i bawb sy'n ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol. Dylid cyfyngu ar fynediad neu ailfynediad i'r eiddo.<br><br>Gall **polisi gwasgaru cwsmeriaid** leihau aflonyddwch sŵn i drigolion lleol gan gwsmeriaid yn gadael yr eiddo. Dylai polisi nodi'n eglur y mesurau ar gyfer osgoi ymadawiad torfol ar ddiwedd y noswaith.<br><br>Gall newid graddol yn arddull y gerddoriaeth a'i distewi, er enghraifft cerddoriaeth ddistaw neu fwyn tua diwedd y noswaith a chynyddu'r golau, gynorthwyo lleihau perygl ymddygiad swnllyd.<br><br>Dylai digon o staff fod ar gael ar ddiwedd y noswaith i reoli cau'r eiddo'n drefnus ac a chadw trefn wrth i gwsmeriaid adael.<br><br>**Arddangos rhybuddion amlwg** yn agos at y drysau ymadael, yn gofyn i gwsmeriaid adael yr eiddo a'r cylch yn gyflym ac yn ddistaw.<br><br>Arddangos rhybuddion mewn meysydd parcio'n atgoffa cwsmeriaid eu bod mewn cylch preswyl ac iddynt adael yn gyflym ac yn ddistaw a pheidio â chlepian drysau, sbarduno peiriannau, canu cyrn na chwarae cerddoriaeth uchel.<br><br>Gwneud cyhoeddiadau ar ddiwedd y noswaith, yn gofyn i |

| | |
|---|---|
| | gwsmeriaid adael yr eiddo a'r cyffiniau'n gyflym ac yn ddistaw.<br><br>**Darparu gwasanaeth ffonio am dacsi am ddim a man aros mewnol i g**wsmeriaid er mwyn atal aflonyddwch sŵn i gymdogion.<br><br>Dylid cymryd camau i sicrhau bod unrhyw weithredwyr tacsis sy'n cael eu defnyddio a'u holl yrwyr yn ymwybodol y dylent gyrraedd a gadael mor ddistaw ag y bo modd ac na ddylent ganu'u cyrn na gadael i'w peiriannau redeg yn ddiangen.<br><br>**Arddangos arwyddion amlwg** mewn ardaloedd allanol fel gerddi cwrw a chyrtiau blaen yn gofyn i gwsmeriaid leihau sŵn i'r eithaf.<br><br>**Cyfyngu ar ddefnyddio ardaloedd allanol** ar ôl 11pm os yw'r eiddo mewn cylch preswyl.<br><br>Dylai **porthorion neu staff** arolygu a rheoli ardaloedd allanol yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw cwsmeriaid yn tarfu ar drigolion lleol.<br><br>Cyfyngu ar nifer yr ysmygwyr sy'n cael bod oddi allan ar unrhyw adeg arbennig ar ôl amser penodol.<br><br>Annog ysmygwyr rhag oedi oddi allan trwy beidio caniatáu iddynt fynd â'u diodydd allan a symud dodrefn allanol oddi yno ar ôl amser arbennig.<br><br>Lleoli mannau ysmygu oddi wrth eiddo preswyl.<br><br>Peidio caniatáu i gwsmeriaid ymgynnull ar y briffordd gyhoeddus a rhwystro pobl rhag mynd heibio. |
| Sŵn ac aflonyddwch oherwydd cyflenwadau, casgliadau a gwared gwastraff | Dylid cyfyngu **cyflenwadau masnachol, casgliadau a chadw / gwared gwastraff**, gan gynnwys cyflenwadau cwrw, casgliadau gwastraff a chadw / gwared gwastraff a deunydd ailgylchadwy mewn ardaloedd allanol i oriau gwaith arferol rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.<br><br>**Ni ddylid dosbarthu taflenni oddi allan i'r eiddo** gan ddeiliad y drwydded nac unrhyw staff yng nghyflogaeth deiliad y drwydded.<br><br>Os caiff taflenni eu dosbarthu dylent gael eu codi fel sbwriel ar |

| | |
|---|---|
| | ddiwedd masnachu. |
| Ysbwriel a gwastraff o gwmpas yr eiddo | **Dylai fod trefnau** ar gyfer casglu ysbwriel a gynhyrchwyd gan yr eiddo o'r stryd yn ddiymdroi er enghraifft taflenni, bonion sigaréts neu gynwysyddion bwyd.<br><br>Dylai staff wneud patrolau rheolaidd o'r ardal oddi allan i'r eiddo i glirio unrhyw ysbwriel sydd i'w briodoli i'r eiddo.<br><br>Dylid defnyddio biniau sigarét ar waliau neu ar lawr mewn mannau ysmygu dynodedig ar gyfer cwsmeriaid. |

**Gwarchod plant rhag niwed**

Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau i arferion da ar gyfer gwarchod plant rhag niwed mewn eiddo trwyddedig. Y bwriad yw cynorthwyo'r rhai sy'n gwneud cais am drwyddedau newydd neu amrywiadau i drwyddedau presennol wrth gwblhau eu hamserlenni gweithredu. Cafodd ei llunio hefyd i lywio trwyddedeion ar warchod plant rhag niwed a rheolaeth yn eu heiddo ar ôl cael trwydded.

Gall cynnal gweithgareddau trwyddedadwy, yn arbennig darparu alcohol a rhai mathau o adloniant, gynyddu peryglon niwed i blant sy'n mynychu eiddo trwyddedig. Yr argymhelliad, felly, yw bod ceiswyr a thrwyddedeion yn cymryd agwedd ragweithiol at warchod a rheoli lles plant yn eu heiddo.

Dylai holl geisiadau am drwyddedau newydd ac amrywiadau roi sylw i'r camau a gynigiwyd i amddiffyn plant rhag niwed a'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy wneud asesiad risg o'r eiddo.

Dylai deiliaid trwyddedau fod â pholisïau a threfnau clir yn dogfennu holl risgiau gyda chyfyngiad oedran yn eu heiddo a gweithredu mesurau i atal, rheoli ac ymateb i'r risgiau hynny.


| **Risg** | **Mesur arferion da** |
|---|---|
| Plant yn mynd i eiddo trwyddedig | Dylai fod **dogfen bolisi** yn pennu mesurau i amddiffyn plant rhag niwed yn yr eiddo. Dylai'r polisi ystyried holl weithgareddau cysylltiedig â'r eiddo, gan gynnwys gwerthu alcohol a darparu adloniant rheoledig, a phryd ddylid caniatáu plant yn eiddo neu eu gwahardd. Dylai holl staff, gan gynnwys porthorion a staff bar, gael hyfforddiant ar y polisi.<br><br>**Cyfyngu ar fynediad plant** yn dibynnu ar natur y busnes |

| | |
|---|---|
| | a/neu'r amgylchiadau. Mae modd cyfyngu ar fynediad plant hyd at amser penodedig yn yr hwyr.<br><br>Nid yw plant i gael mynediad heblaw yng nghwmni oedolyn. |
| Gwerthu alcohol i rai dan oed | **Gweithredu polisi llym 'Dim ID – Dim Gwerthiant'**. Mae **cynllun** '**Her 21'** yn atgoffa staff o'r angen i fod yn wyliadwrus wrth atal gwerthu i rai dan oed ac yn atgoffa cwsmeriaid ei bod yn groes i'r gyfraith i neb dan 18 brynu alcohol.<br><br>Mae cynllun 'Her 25' yn rhoi cymorth a chefnogaeth ychwanegol i staff ofyn am ID unrhyw un sy'n ymddangos eu bod dan 25 oed i brofi eu bod dros 18.<br><br>Ni ddylid derbyn dim ond trwyddedau gyrru llun, pasbortau neu gardiau PASS (Cynllun Safonau Prawf Oed) fel dull adnabod. Dylid defnyddio nodiadau ar y til i atgoffa staff i ofyn am brawf oedran.<br><br>Dylid hysbysebu'r cynllun yn amlwg yn yr eiddo fel bod cwsmeriaid yn ymwybodol. Yn arbennig, dylid arddangos arwyddion prawf oedran ger y man gwerthu.<br><br>Dylid **arddangos posteri yn yr eiddo** sy'n dweud ei bod yn drosedd prynu alcohol ar ran rhywun dan oed (gwerthiannau dirprwyol).<br><br>Dylid **cadw llyfr gwrthodiadau** (neu fotwm gwrthodiad ar EPOS – Man Gwerthu Electronig) yn yr eiddo a sicrhau ei fod yn cael ei lenwi pryd bynnag y caiff gwerthiant ei wrthod i rai sy'n methu profi eu bod dros 18 oed.<br><br>Dylai'r llyfr gynnwys dyddiad ac amser y digwyddiad, disgrifiad o'r cwsmer, enw'r aelod o'r staff a wrthododd y gwerthiant, a'r rheswm dros wrthod y gwerthiant.<br><br>Dylai'r llyfr fod ar gael i'r heddlu a swyddogion awdurdodedig y Cyngor ar gais.<br><br>Dylid adolygu'r llyfr yn rheolaidd i weld a oes unrhyw batrymau'n ymddangos.<br><br>Dylai holl borthorion a staff bar a thiliau gael **hyfforddiant** |

| | |
|---|---|
| | ynghylch adrannau seiliedig ar oedran Deddf Trwyddedu 2003. Mae hyn yn cynnwys gallu gwirio ID cwsmeriaid yn gymwys pan fo angen.<br><br>Dylid cadw cofnod o'r dyddiad, ac enw bwy bynnag a hyfforddwyd. |
| Mynediad at ffilmiau gyda chyfyngiad oedran | Dylai fod **darpariaethau digonol ar gyfer cyfyngu plant** rhag gwylio ffilmiau gyda chyfyngiad oedran arnynt yn yr eiddo. Dylid hyfforddi staff i gadarnhau oedrannau yn y man gwerthu a chyn mynediad i ystafell ddangos er mwyn sicrhau bod mynediad plant i ffilmiau'n cyd-fynd ag argymhellion Dosbarthiadau'r Bwrdd Ffilmiau Prydeinig (BBFC). |

# Atodiad B -

## Ardal Ddaearyddol y Polisi Effaith Gronnol yn Hwlffordd, Sir Benfro



## Ardal Ddaearyddol y Polisi Effaith Gronnol yn Ninbych-y-pysgod, Sir Benfro

**Licensing Act 2003**
**Cumulative Impact Area for Tenby**

Map produced on: 22 July 2015

Scale (A4 Print) 1:3,000




© Crown copyright and database rights 2015 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2015 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.